Rhif: WG34221

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith:

Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru

Tachwedd 2018

OGL © Hawlraint y Goran ISBN digidol 978-1-78964-517-0

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Ymatebion	3
3.	Crynodeb o'r ymatebion	6

Atodiadau

A.Rhestr o'r ymatebwyr yn ôl categori

1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd y ddogfen ymgynghori "Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru" ar 30 Ebrill 2018 ac roedd modd cyflwyno ymatebion iddi tan 23 Gorffennaf 2018. Nodwyd cyfanswm o 22 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol er hwylustod. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Fe'i rhennir yn ddwy adran arall.

1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
- Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, lle y gellid llunio ystadegau;
- Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn;
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
- Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.

1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- **Eglurhad a geisiwyd ynglŷn â manylion:** Bwriedir i broses rhoi caniatâd unedig yng Nghymru, pan fydd mewn grym, gael ei hategu gan ganllawiau. Bydd y canllawiau hynny yn ceisio egluro materion manwl a godwyd yn y papur ymgynghori hwn;
- **Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol gerbron neu a wnaed gan Weinidogion Cymru:** O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses gynllunio, nid oes modd iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniadau y mae'n rhan ohono. Pe baent yn gwneud hynny gallai ragfarnu safbwynt Llywodraeth Cymru.

- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond a wnaed mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn, gwnaed ymdrechion i grynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fydd yn cael ei newid.

2. Ymatebion

2.1 Ar 30 Ebrill 2018 hysbyswyd mwy na 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff eraill a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol ("ACLlau") yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

2.2 Cyflwynwyd 46 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oedd yn perthyn. Dengys Tabl 1 isod y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

Tabl 1 - Dadansoddiad o'r Ymatebwyr

Categori	Rhif	% y cyfanswm
Ymgynghorwyr Busnes/ Cynllunio	10	22%
Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	10	22%
Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	12	26%
Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	9	20%
Y Sector Gwirfoddol	2	4%
Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	6%
Cyfanswm	**46**	

2.4 Cododd cwestiynau 1 - 21 a 23-24 yr ymgynghoriad gwestiynau penodol ynglŷn â pholisi. Roedd y cwestiynau yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol; 'ydw/ydyn', 'ydw/ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'nac ydw/ydyn'. Cyflwynir trosolwg ystadegol o'r ymatebion yn dangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau fel rhan o'r dadansoddiad o bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen hon. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'ddim yn gwybod'. Lle y darparodd ymatebwyr sylwadau ac roedd eu barn yn glir, ond ni wnaethant nodi ateb penodol, neilltuwyd naill ai 'ydw/ydyn' (yn amodol ar sylwadau pellach) neu 'nac ydw/ydyn' i'r ymatebion hyn.

Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	
C1	A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y tir? Os nad ydych, pam?
C2	A ydych yn cytuno â'n cynigion byrdymor ynghylch storio trydan? Os nad ydych, pam?
C3	A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer llinellau trydan uwchben? Os nad ydych, pam?
C4	A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y môr? Os nad ydych, pam?
C5	A ydych yn cytuno â'n cynigion i geisio trosglwyddo pŵer ffyrddfreintiau angenrheidiol a chaffael gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu?
C6	A ydych yn cytuno â'r egwyddorion (a nodir ym *Mharagraffau 3.26 i 3.43*) a fydd yn sail i broses rhoi caniatâd unedig? Os nad ydych, pam?
C7	A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar y broses o roi caniatâd seilwaith o'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir o dan broses Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhoi cyfundrefn gwbl newydd ar gyfer rhoi caniatâd ar waith yn ei lle?
C8	A ydych yn cytuno ag egwyddor trothwyon dewisol ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru?
C9	A ydych yn cytuno mai Gweinidogion Cymru, yn y pen draw, a ddylai benderfynu fesul achos p'un a yw Prosiect Seilwaith dewisol yng Nghymru yn gymwys fel y cyfryw ai peidio? Os nad ydych, pam?
C10	A ydych yn cytuno y dylai dynodiad yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru fod yn faen prawf o ran p'un a yw datblygiad yn gymwys fel Prosiect Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?
C11	A ydych yn cytuno â'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?
C12	A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar yr angen am ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal glannau Cymru? Os nad ydych, pam?
C13	A ydych yn cytuno â'n cynigion i Ganiatâd Seilwaith yng Nghymru naill ai fod ar ffurf caniatâd safonedig neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y math o gais a wneir? Os nad ydych, pam? cynigion?
C14	A ydych yn cytuno â'r syniad o roi rhai dosbarthiadau penodol o ddatblygiadau ar y llwybr carlam? Os ydych, nodwch ble y gall hyn fod yn addas.
C15	A ydych yn cytuno â'n cynigion i ddatgymhwyso'r angen am rai awdurdodiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r prif ddatblygiad? Os ydych, nodwch pa awdurdodiadau y gellir eu cynnwys mewn Caniatâd Seilwaith yng Nghymru.
C16	A ydych yn cytuno y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau fod yn sail polisi ar gyfer penderfynu p'un a ddylai Prosiectau Seilwaith yng Nghymru fynd rhagddynt ai peidio? Os nad ydych, pam?
C17	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch defnyddio ymgyngoriadau cyn ymgeisio yn sail i broses rhoi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?
C18	A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar ymchwiliadau o'r broses ar

	gyfer penderfynu ynghylch y broses rhoi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru ac i wrandawiadau yn unig gael eu cynnal yn eu lle? Os nad ydych, pam?
C19	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch amrywiadau yn ystod y broses benderfynu ac amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd? Os nad ydych, pam? Os ydych yn cytuno, awgrymwch ffyrdd o roi'r amrywiadau hynny ar y llwybr carlam.
C20	A ydych yn cytuno mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r awdurdod gorfodi ar y tir perthnasol ac mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar y môr perthnasol? Os nad ydych, pam?
C21	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch caffael tir yn orfodol? Os nad ydych, pam?
C22	A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill ar Rannau 1 a 2 o'r ymgynghoriad hwn?
C23	A ydych yn cytuno â'n meini prawf ar gyfer dirprwyo achosion sy'n ymwneud â Gorchmynion Prynu Gorfodol anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt? Os nad ydych, pam?
C24	A ydych yn cytuno â'r bwriad i ddiwygio, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, adran 5(4) o Ddeddf Caffael Tir 1981 i ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau i bartïon mewn perthynas â gorchmynion prynu gorfodol yn cael eu gwneud i hwyluso datblygiad a defnyddiau tir eraill, neu at ddibenion priffyrdd?

2.5 Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'r categorïau a nodwyd ganddynt yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Os bydd ymatebwyr wedi gofyn i ni gadw unrhyw wybodaeth yn ôl, byddant yn ymddangos fel “Dienw” o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel “Dienw” er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Cyhoeddir ‘Rhestr o Ymatebion’ a chopïau o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar eu ffurf wreiddiol (gyda manylion personol pob ymatebydd wedi'u ddileu, hyd yn oed os na ofynnir inni wneud hynny) ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

3. Crynodeb o'r Ymatebion

C1	A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y tir? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig codi'r trothwy o ran Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir nad ydynt yn rhai gwynt ar y tir i 350MW, o ganlyniad i bwerau datganoledig newydd o Ddeddf Cymru 2017. Effaith hyn fydd sicrhau mai Gweinidogion Cymru, nid Awdurdodau Cynllunio Lleol, fyddai'n pennu ceisiadau a gyflwynir rhwng 50MW – 350MW.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw /Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydw/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes/ Cynllunio	2	3	0	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	10	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**8**	**7**	**1**	**30**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydw/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**1**
Cyfanswm y Ganran	**93%**	**7%**

Adolygiad ystadegol

3.1 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn ymgynghori. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 93% â'r cynigion ar gyfer trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir, a dim ond un ymatebydd o'r categori 'Eraill' a anghytunodd â'r cynigion.

3.2 Roedd Ymgynghorwyr Busnes/Cynllunio, ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynigion heb unrhyw wrthwynebiadau. Nid ymatebodd y rhai o'r Sector Gwirfoddol i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

3.3 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Cymorth cyffredinol i'r cynnig;
- Mân bryderon ynghylch y defnydd o gyfundrefn DNS ar gyfer prosiectau mwy a fyddai wedi bod yn rhan o broses DCO cyn cychwyn y pwerau datganoledig newydd;
- Dylai datblygiad atodol gael ei gynnwys er mwyn osgoi dyfarniadau hollt.

Trosolwg

3.4 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Gwnaeth ymatebwyr gydnabod a derbyn yr angen am drefniant interim, yn dilyn cychwyn y pwerau datganoledig newydd o Ddeddf Cymru 2017 ar 1 Ebrill 2019.

3.5 O blith yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno, dywedodd un Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLL), er bod cefnogaeth i ehangu cyfundrefn DNS yn y tymor byr, rhaid i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y broses ymgeisio gael eu dilyn gan ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ceisiadau yn cael eu cyflwyno i safon ddigonol er mwyn goroesi'r broses archwilio.

3.6 Gofynnodd ACLl arall, er ei fod yn cytuno, am eglurder ynghylch rôl yr ACLlau o dan y trefniadau interim, yn benodol mewn perthynas â gorfodi a'u rôl fel ymgynghorai. Codwyd cwestiwn hefyd ynghylch disgwyliadau Cyd-bwyllgorau, os oedd un wedi ei sefydlu.

3.7 Awgrymodd Ymgynghorydd Busnes y dylai ymgeiswyr fod yn gallu dewis y llwybr gorau i'w prosiectau a chaniatáu i ACLlau ddod yn awdurdod penderfynu ar gyfer prosiectau ar raddfa lai, gan gyfeirio prosiectau mwy o faint a mwy dadleuol i Weinidogion Cymru.

3.8 Cododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio bryderon ynghylch lleihad yn atyniad Cymru i fuddsoddiadau o bosibl. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith y byddai angen cryn dipyn o fanylion dylunio ar gyfer y trefniadau interim ac ymrwymiad i fuddsoddi cyn y gellid barnu bod yr egwyddor datblygu yn dderbyniol. Roedd tri ymatebydd am gael eglurhad o'r trefniadau trosiannol.

3.9 Nododd un o Asiantaethau'r Llywodraeth y dylai'r trefniadau interim roi sicrwydd drwy ddarparu fframwaith addas ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys amserlenni clir ar gyfer penderfyniadau ac ymgynghori; ac asesiad priodol o effeithiau amgylcheddol.

3.10 Nododd dau ymateb (un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol ac un o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio) pa mor hanfodol yw sicrhau bod datblygiad sy'n gysylltiedig â phrosiect DNS neu sy'n atodol iddo yn cael ei gynnwys fel rhan o'r trefniadau interim er mwyn osgoi dyfarniadau hollt rhwng Gweinidogion Cymru ac ACLlau.

3.11 Derbyniwyd nifer o ymatebion yn gofyn am ganllawiau clir a newydd ar y trefniadau interim, yn ogystal â gwybodaeth fanylach am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi trefniadau ar waith yn y dyfodol.

3.12 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C1	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Prosesau a gweithdrefnau</u>

Nid yw deddfwriaeth sylfaenol gyfredol yn caniatáu i ymgeiswyr ddewis y llwybr a ddilynir i benderfynu ar eu cais (h.y. naill ai gan ACLlau neu Weinidogion Cymru). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai ACLlau yw'r cyrff gorau i benderfynu ar ddatblygiadau ar raddfa lai, a byddant yn cadw'r gallu i benderfynu ar geisiadau hyd at 10MW. Penderfynir ar bob cais arall hyd at 350MW gan Weinidogion Cymru drwy broses DNS.

Er y penderfynir ar ddatblygiadau rhwng 50MW - 350MW drwy broses DNS ac nid proses DCO, credwn mai hwn yw'r ateb gorau posibl. Fel y trafodwyd ym mharagraffau XX- XX o'r papur ymgynghori, ein bwriad yw datblygu cyfundrefn rhoi caniatâd newydd ac unedig i Gymru, sy'n anelu at wneud Cymru yn lle atyniadol ar gyfer buddsoddiadau.

<u>Darpariaethau trosiannol</u>

Mae'r darpariaethau trosiannol perthnasol sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ar y tir ym Mharagraff 8 o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017.

<u>Canllawiau</u>

Caiff canllawiau presennol mewn perthynas â phroses DNS eu hadolygu ac os bydd angen, eu diwygio, i adlewyrchu'r newidiadau a ddaw i rym drwy gychwyn Deddf Cymru 2017.

Rôl ACLlau

Bydd rôl ACLlau yr un peth ag ydyw ar hyn o bryd o dan gyfundrefn DNS. Bydd unrhyw ddyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni fel rhan o'r broses yn parhau.

Cyd-bwyllgorau

Nid ydym yn cynnig unrhyw rôl newydd ar gyfer Cyd-bwyllgorau ac mae newidiadau o'r fath y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Datblygiad atodol

Ni chynigir unrhyw ddiwygiadau o'r natur hon i gyfundrefn DNS.

Y camau nesaf

3.13 Cynigir y dylid parhau â'n cynigion i gynyddu trothwy DNS ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir o 50MW i 350MW y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt yn hytrach nag ACLlau fel rhan o'r trefniadau interim.

C2	A ydych yn cytuno â'n cynigion byrdymor ynghylch storio trydan? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dileu ceisiadau am orsafoedd cynhyrchu ar gyfer storio trydan (ac eithrio pwmp-storio hydrodrydanol) rhag cael eu nodi fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gwneir ceisiadau o'r fath i Awdurdodau Cynllunio Lleol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes/ Cynllunio	1	4	1	4	10
B	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	1	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	0	1	0	11	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**7**	**8**	**1**	**30**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**1**
Cyfanswm y Ganran	**93%**	**7%**

Adolygiad ystadegol

3.14 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn ymgynghori. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 93% â'r cynigion ar gyfer trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir, a dim ond un ymatebydd o'r categori Ymgynghorydd Busnes /Cynllunio a anghytunodd â'r cynigion.

3.15 Roedd Ymgynghorwyr Busnes/Cynllunio, ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynigion heb unrhyw wrthwynebiadau. Nid ymatebodd y rhai o'r Sector Gwirfoddol i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

3.16 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Cytundeb bod effeithiau amgylcheddol y technolegau storio yn isel.
- Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar brosiectau o'r fath.
- Ceisio eglurhad o ran p'un a all storio fod yn rhan o gais DNS os yw'n gysylltiedig â phrosiect DNS.

Trosolwg

3.17 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. O blith y rhai sy'n cefnogi'r cynnig, dywedodd ymatebwyr fod defnyddio dull storio ynni yn gyflym yn hollbwysig ar gyfer datgarboneiddio economi Cymru. At hynny, dywedodd un ACLl fod y dull storio yn aml yn gywasgedig ac yn gymharol ddisylw o'i gymharu â mathau eraill o gynhyrchu. Cytunodd un ymatebydd Asiantaeth Llywodraeth / Corff sector cyhoeddus arall fod potensial mawr i dechnoleg storio.

3.18 Dywedodd un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff sector cyhoeddus arall ac Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y gall yr effeithiau amgylcheddol posibl o gynlluniau storio gael eu hasesu'n ddigonol yn lleol. Gwnaeth un ACLl sylw ar yr effaith amgylcheddol is sy'n gysylltiedig â cheisiadau storio. Gwnaeth un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd nodi y byddai'r cynnig yn dileu rhwystrau i dechnoleg o'r fath.

3.19 Cefnogodd rhai ymatebwyr y cynnig. Fodd bynnag, roedd gan rai bryderon ynghylch agweddau penodol.

3.20 Gwnaeth un ACLl sylw ar y potensial i wrthwynebiadau i gais DNS ar gyfer gorsaf gynhyrchu gonfensiynol a oedd yn cysylltu â phrosiect storio ynni i gael eu hailadrodd a'u dyblygu yn lleol.

3.21 Cafwyd dau Ymateb gan ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ac un o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff sector cyhoeddus arall yn mynegi siom ynghylch dosbarthu storio fel is-set o ddull cynhyrchu ynni. Gwnaed y ddadl gan nodi bod galluoedd cynhyrchu a storio yn wahanol. Gwnaeth un ymatebydd o'r fath hefyd ychwanegu y gall y dosbarthiad hwn fod yn niweidiol o ran hyfywedd prosiect a nododd y byddai ail-gategoreiddio storio yn arwain at gynnydd mewn gosodiadau.

3.22 Er mai felly y mae, roedd un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth /Corff sector cyhoeddus arall yn deall yr angen i storio gael ei ddiffinio yn y ffordd hon yn y byrdymor. Fodd bynnag, dylid ei nodi fel gweithgarwch penodol yn yr hirdymor.

3.23 Mae un ymateb gan ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ar atal storio gan weithredwyr grid a rhwydwaith presennol oherwydd problemau capasiti yn rheswm dros ddiffyg ceisiadau DNS ar gyfer storio.

3.24 Mynegodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio bryder y gallai dileu storio o'r DNS ddaduno'r gyfundrefn rhoi caniatâd. Ar y cyd â hyn, nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant a thri ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai fod yn bosibl cyflwyno storio fel rhan annatod o orsaf gynhyrchu ar y tir gonfensiynol er mwyn osgoi'r angen am sawl caniatâd.

3.25 Nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant y dylid cyflwyno trothwy ardal safle i atal cynlluniau cynhyrchu eraill ar raddfa fach, megis Cronfeydd Gweithredu Byrdymor ("STOR") ac y gallant gael eu heithrio o broses DNS. Nododd un ymatebydd o'r categori Busnes / Cynllunio hefyd y dylid dileu cyfleusterau STOR o gyfundrefn DNS yn gyfan gwbl, oherwydd eu heffeithiau cymharol fach.

3.26 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

3.27 Nododd nifer o ymatebwyr sy'n cynrychioli amrywiaeth o grwpiau sylwadau fod cynlluniau storio yn aml yn cael eu datblygu ochr yn ochr â phrosiectau cynhyrchu eraill. Ceisiodd yr ymatebwyr hyn eglurhad ynghylch sut yr ymdrinnir â senarios sy'n cynnwys hybrid storio a chynhyrchu confensiynol, yn ogystal ag eglurhad ynghylch y trothwyon ar gyfer cyfundrefnau perthnasol.

3.28 Nododd un ACLl y dylid rhoi arweiniad a chyd-destun i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn lleol. Hefyd, nododd un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff sector cyhoeddus arall y gall fod yn ddefnyddiol adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru ar Oblygiadau Cynllunio Datblygiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel i gynnwys elfennau storio.

3.29 Anghytunodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorydd Busnes /Cynllunio â'r cynnig yn gyfan gwbl ac roedd o'r farn y dylid cael un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl seilwaith sy'n gysylltiedig ag ynni, yn rhannol oherwydd perfformiad gwael ACLlau. Roedd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd yn teimlo y dylid mynd i'r afael â diffygion yn y broses DNS yn hytrach na dirprwyo penderfyniadau yn lleol.

3.30 Nododd un ACLl y dylai unrhyw newid deddfwriaethol angenrheidiol sy'n digwydd yn Lloegr gael ei roi ar waith ar fyrder yng Nghymru.

C2	Ymateb Llywodraeth Cymru

Storio yn cael ei ddosbarthu fel cynhyrchu

Gan nad yw rheoleiddio diwydiannau ynni yn fater datganoledig, penderfyniad Llywodraeth y DU yw dosbarthu storio fel cynhyrchu ynni.

Egluro cyfundrefnau

Mae Deddf Cymru 2017 yn codi'r trothwy datganoledig uwch ar gyfer rhoi caniatâd i orsafoedd cynhyrchu o gapasiti cynhyrchu gosodedig o 50MW i 350MW (ac eithrio gwynt ar y tir). Er mai felly y mae, bydd storio yn parhau i gael ei ddosbarthu fel is-set cynhyrchu.
Bydd y cynigion a geir yn y papur ymgynghori yn creu dull cynhyrchu sy'n storio at ddibenion DNS. Felly, rhoddir caniatâd ar gyfer gorsaf gynhyrchu gonfensiynol â chapasiti gosodedig rhwng 10MW a 350MW (ac eithrio gwynt ar y tir) drwy broses DNS, a bydd yr ACLl yn rhoi caniatâd ar gyfer cyfleuster storio gyda chapasiti gosodedig hyd at 350MW.

Ni fydd hyn yn atal gallu datblygwr i wneud cais am orsaf gynhyrchu fel DNS, a bydd yn cynnwys yr agwedd storio fel caniatâd eilaidd.
Er mai felly y mae, gall fod eithriadau. Lle mae storio a dull cynhyrchu mwy confensiynol yn cyfuno i gyrraedd mwy na 350MW, gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd ar gyfer prosiectau o'r fath o dan broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu lle maent yn creu un orsaf gynhyrchu. Mae hyn yn dibynnu ar leoli a'r gydberthynas rhwng yr agwedd storio a'r agwedd cynhyrchu confensiynol ar y prosiect.

Cyflwyno trothwy ardal safle a dileu cyfleusterau STOR o broses DNS

Rhoddwyd ystyriaeth i gyflwyno ardal safle. Er y gallai hyn gael ei ddefnyddio fel ffordd ymarferol o benderfynu a yw prosiect yn ddigon pwysig, o ganlyniad i'w effeithiau amgylcheddol neu economaidd, i'w gynnwys neu ei hepgor fel prosiect DNS, mae namau ac eithriadau. Er enghraifft, gall trothwy ar sail gofod atal rhai mathau o brosiectau ag effeithiau eang, sydd ag ôl troed bach ar y tir ond ag effeithiau mwy o lawer ac sy'n golygu mwy o waith o dan y ddaear. At hynny, gall trothwy ar sail gofod atal rhai mathau o brosiectau rhag DNS sydd ag effeithiau anhysbys. Rydym yn ystyried y ffurf a gynigir ar hyn o bryd o benderfynu

ar yw prosiect yn DNS neu fel arall yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, sy'n ystyried arwyddocâd prosiect yn ogystal â pherfformiad ACLl. Er mai felly y mae yn y byrdymor, rhoddir ystyriaeth bellach i drothwyon ar sail gofod fel rhan o broses rhoi caniatâd bwrpasol ac unedig yn yr hirdymor.

Gan ymdrin â chyfleusterau STOR yn benodol, er bod ymchwil Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn awgrymu mai cymharol fach yw effaith cyfleusterau o'r fath ac yn argymell eu dileu o broses DNS, ni chyflwynwyd tystiolaeth ddarbwyllol sy'n awgrymu y dylid chwalu rhwystrau canfyddedig i dechnolegau o'r fath yn y byrdymor. Yn y cam tuag at Gymru sy'n cynhyrchu'r mwyafrif helaeth o'i hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy, rhoddwyd blaenoriaeth i ddileu rhwystrau ar gyfer technolegau sy'n cynhyrchu'n lân.

<u>Un pwynt cyswllt ar gyfer seilwaith ynni</u>

Yn ein barn ni, y rhai a etholir ddylai benderfynu o hyd ar unrhyw gynigion sydd ag effeithiau sy'n gyfyngedig i'r ardal leol. Mae ein cynigion yn taro'r cydbwysedd cywir drwy ganiatáu i'r datblygiadau hynny sydd ag effeithiau economaidd ac amgylcheddol ehangach gael eu penderfynu'n genedlaethol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i sefydlu un pwynt cyswllt er mwyn penderfynu ar roi caniatâd ar gyfer yr holl seilwaith ynni. Yn ein barn ni gall hyn fod yn fwy costus i'r ymgeisydd neu'r datblygwr a gall arwain at atal datblygiad seilwaith ar raddfa fach yng Nghymru.

<u>Y camau nesaf</u>

3.31 Argymhellir datblygu ein cynigion i ddileu ceisiadau am orsafoedd cynhyrchu ar gyfer storio trydan (ac eithrio pwmp-storio hydrodrydanol) rhag cael eu nodi fel un DNS. Yn lle hynny, gwneir ceisiadau o'r fath i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

3.32 Byddwn yn ceisio egluro sut yr ymdrinnir â senarios sy'n cynnwys hybrid storio a chynhyrchu confensiynol, yn ogystal ag eglurhad ynghylch sut y gall y trothwyon hyn weithredu ar y cyd. O ran polisi, mae fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru yn cael ei llunio a chaiff ei chyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Dylai fformat diwygiedig Polisi Cynllunio Cymru baratoi Awdurdodau Cynllunio Lleol yn well i benderfynu ar geisiadau am ynni adnewyddadwy.

C3	**A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer llinellau trydan uwchben? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig nifer o newidiadau mewn perthynas â llinellau trydan uwchben datganoledig. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo eithriadau o dan Ddeddf Trydan 1989 yn hawliau datblygiad a ganiateir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gan gynnwys y gwaith o roi caniatâd i linellau datganoledig	

ym mhroses DNS a phennu Arolygydd Cynllunio fel y gwneuthurwr penderfyniadau diofyn.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	3	1	0	6	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff	1	2	0	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**9**	**7**	**0**	**30**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**0**
Cyfanswm y Ganran	**100%**	**0%**

Adolygiad ystadegol

3.33 Er na wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb cwestiwn yr ymgynghoriad, o blith y rhai a wnaeth (naill ai 'Ydw/Ydyn', 'Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau, ac roedd 100% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig yn ymwneud â llinellau trydan uwchben. Fodd bynnag, methodd y rhai o'r Sector Gwirfoddol â darparu ymateb naill ai o blaid neu yn erbyn y cynnig.

Themâu allweddol

3.34 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 3 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth i Arolygwyr sy'n gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, angen eglurhad o ran beth fyddai'r amgylchiadau lle y byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau llinellau trydan uwchben DNS, yn lle'r Arolygydd.

- Cefnogaeth eang i drosglwyddo eithriadau presennol i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- Pryder ynghylch amserlenni ar gyfer rhoi caniatâd.

Trosolwg

3.35 Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r cynnig. O blith y rhai a gefnogodd y cynnig, gwnaeth un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un o'r categori Asiantaeth Llywodraeth sylw am y ffaith y bydd cynnwys llinellau trydan uwchben yn y DNS yn uno'r broses rhoi caniatâd i ryw raddau. Dywedodd un ACLl y byddai dull cenedlaethol yn lleddfu'r pwysau yn lleol.

3.36 Nododd un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth y dylai'r trefniadau interim roi sicrwydd drwy amserlenni clir a helpu yn y broses bontio tymor hwy tuag at y broses WIC. Nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol ac un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio fod y gallu i Arolygwyr wneud penderfyniadau ar gynlluniau o'r fath yn bragmatig a byddai'n lleddfu'r anghysondeb o ran amserlen rhwng Deddf Trydan 1989 a phenderfyniadau DNS.

3.37 Dywedodd un ymatebydd o'r ACLl y dylid ystyried ceisiadau am gysylltiadau grid ochr yn ochr â'r brif orsaf gynhyrchu i atal caniatadau dyblyg.

3.38 Cefnogodd rhai ymatebwyr y cynnig. Fodd bynnag, roedd gan rai bryderon ynghylch agweddau penodol. Dywedodd un ACLl y gall proses DNS ymestyn y broses gwneud penderfyniadau ymhellach. Nododd ymatebydd Busnes hefyd fod cyfnod o 4 i 6 wythnos, yn gyson â phroses Deddf Trydan 1989 yn well. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol ac un o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y byddai'r broses yn fyrrach na phroses DCO mewn sawl achos, lle mae'r llinell drydan uwchben yn 132KV.

3.39 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

3.40 Gwnaeth un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio gwestiynu datganiadau a wnaed yn y papur ymgynghori, gan haeru mai anaml y bydd ACLlau yn gwrthwynebu ceisiadau am linellau trydan uwchben o dan Ddeddf Trydan 1989 gan eu bod yn llai dadleuol eu natur fel arfer.

3.41 Awgrymodd un ymatebydd o ACLl y gallai trothwyon o hyd amrywiol, trawsyriadau pŵer neu ddosbarthiadau LANDMAP gael eu hymgorffori er mwyn sicrhau bod rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol.

3.42 Er eu bod yn gefnogol, nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a dau o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio fod angen canllawiau clir ar yr amgylchiadau ar gyfer awdurdodaeth cais a adferwyd. Nododd un ACLl hefyd y dylid rhoi ystyriaeth fanwl i bwy yw'r gwneuthurwr penderfyniadau. Awgrymodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylid ystyried ymestyn gallu Arolygwyr i wneud penderfyniadau i orsafoedd nad ydynt yn cynhyrchu gwynt.

3.43 Nododd un ACLl ac un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol y dylid gosod llinellau trydan uwchben o dan y ddaear lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio fod hwn yn ateb anghynaliadwy.

3.44 Nid yw un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn credu y bydd y cynnig yn cyflawni'r cydbwysedd bwriadedig rhwng bod yn drwyadl a gwneud penderfyniadau amserol. Awgrymodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio fod y gwahaniaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r broses arfaethedig yng Nghymru yn achos pryder.

C3	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Nid yw amseroldeb yn cael ei gyflawni</u>

Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod yn llwyr na fydd y cynigion yn arwain at broses fwy amserol o gymharu â Deddf Trydan 1989. Yn y pen draw, mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi ceisiadau ar gyfer llinellau trydan uwchben yn y broses cynllunio gwlad a thref, sydd ag ystod ehangach o ystyriaethau gwneud penderfyniadau. Nid yw'n bosibl newid y sefyllfa hon yn y byrdymor. Yn ein barn ni, mae'r buddiannau a sicrheir o ran un awdurdod rhoi caniatâd ar gyfer pob llinell drydan uwchben a'r potensial i ymgeiswyr uno ceisiadau ar gyfer caniatâd â'r rhai ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu yn drech na'r anfanteision o ran amser.

<u>Adfer gan Weinidogion Cymru</u>

Nododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad fod angen canllawiau clir o ran pryd y byddai cais penodol yn cael ei adfer i benderfynu arno gan Weinidogion Cymru. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi'r meini

prawf adfer ar gyfer apeliadau i Weinidogion Cymru. Byddwn yn adolygu'r meini prawf hyn yng ngoleuni'r cynnig i gadw llinellau trydan uwchben yn ôl er mwyn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt, oni chânt eu hadfer.

Trothwyon amrywiol yn dibynnu ar allbwn a hyd

Gwnaed awgrymiadau i seilio'r trothwy rhoi caniatâd ar gyfer llinellau trydan uwchben ar allbwn yn ogystal â hyd er mwyn sicrhau mai dim ond ar linellau sydd ag effaith leol y gwneir penderfyniadau yn lleol. Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei ystyried. Mae'r papur ymgynghori yn glir ynghylch pwysigrwydd llinellau trydan uwchben i weithrediad y rhwydwaith trydan. Wrth wneud hynny, mae angen dull gweithredu cyson. Mae'n debygol iawn na fydd angen rhoi caniatâd ar gyfer y llinellau trydan uwchben hynny sy'n fyr o ran hyd, o foltedd isel ac sy'n debygol o beidio â chael effeithiau amgylcheddol y tu hwnt i'r ardal leol o dan ein cynigion i drosglwyddo esemptiadau o dan Ddeddf Trydan 1989 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyfuno cysylltiad grid â chais am orsaf gynhyrchu

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch p'un a ellir cyfuno cais am linell drydan uwchben â chais am orsaf gynhyrchu o dan broses DNS. Nid oes dim i atal hyn rhag digwydd a byddem yn annog y dull gweithredu hwn lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r ymgeisydd am orsaf gynhyrchu fel arfer yn wahanol i'r ymgeisydd am y cysylltiad grid sy'n aml yn golygu na ellir cyfuno'r ddau gais.

Rhoi llinellau o dan y ddaear

Ein bwriad parhaus yw y caiff y rhan fwyaf o'r gwaith datblygu sy'n ymwneud â rhoi llinellau trydan o dan y ddaear ei eithrio o'r gofyniad i gael caniatâd cynllunio. Er mai felly y mae, penderfynir ar geisiadau am linellau trydan uwchben ar eu rhinweddau. Disgwylir i benderfyniadau ynghylch llinellau trydan uwchben gael eu gwneud gan ystyried y cynllun datblygu sy'n bodoli, yn ogystal ag ystyriaethau perthnasol eraill, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru.

Y camau nesaf

3.45 Cynigir y dylid datblygu ein cynigion ynghylch llinellau trydan uwchben. Er mai felly y mae, ein nod yw adolygu'r meini prawf adfer sy'n ymwneud â cheisiadau o'r fath er mwyn egluro'r sefyllfaoedd lle caiff penderfyniadau o'r fath eu hadfer gan Weinidogion Cymru.

C4	**A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y môr? Os nad ydych, pam?**

Y sefyllfa ddiofyn a nodir gan Ddeddf Cymru yw y bydd y broses o roi caniatâd ar gyfer prosiectau rhwng 1MW a 350MW yn cael ei chyflawni drwy adran 36 o'r Ddeddf Trydan, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Mae'r broses ymgynghori yn cynnig gwneud defnydd o'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae'n cynnig diwygiadau i ffioedd i gyd-fynd â phroses DNS.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ Ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	1	0	7	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	1	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	10	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**10**	**3**	**1**	**32**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**13**	**1**
Cyfanswm y Ganran	**92%**	**8%**

Adolygiad ystadegol

3.46 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn ymgynghori. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 92% â'r cynigion ar gyfer trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir, a dim ond un ymatebydd o'r categori 'Eraill' a anghytunodd â'r cynigion.

3.47 Roedd Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynigion heb unrhyw wrthwynebiadau. Nid ymatebodd y rhai o'r Sector Gwirfoddol i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

3.48 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:

- Cytunwyd bod y trefniadau interim hyn ar gyfer caniatadau ar y môr yn rhesymegol, ond nid ydynt yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

- Angen egluro ymhellach y gydberthynas rhwng caniatâd i adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu a'r gyfundrefn Trwyddedu Morol.

- Gall cynnydd mewn ffioedd atal prosiectau ar y môr rhag cael eu cynnig.

Trosolwg

3.49 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. O blith y rhai sy'n cefnogi'r cynnig, dywedodd un ACLl na fyddai hyn yn arwain at newid enfawr i'r hyn a geir ar hyn o bryd. Dywedodd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â rhesymeg y dull gweithredu yn y byrdymor, fod yn rhaid sicrhau mai'r weledigaeth hirdymor yw uno cyfundrefnau caniatâd ar y tir ac ar y môr.

3.50 Roedd gan rai ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynigion bryderon ynghylch agweddau penodol. Soniodd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol, un o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio fod yn rhaid i'r rhyngweithio rhwng y caniatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 a'r drwydded forol gysylltiedig gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau lefel dda o wasanaeth, penderfyniadau cydamserol ac i leihau dyblygu'r llwyth gwaith. Dywedodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai gwasanaeth cydgysylltiedig effeithiol gael ei ddarparu ni waeth pwy oedd y corff rhoi caniatâd.

3.51 Mewn perthynas â chynlluniau ar y môr, dywedodd un ACLl y dylid rhoi ystyriaeth i'r Cynllun Morol Drafft wrth asesu effaith weledol.

3.52 O ran y newidiadau arfaethedig mewn ffioedd, nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol ac un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y gall cynnydd fod yn ffactor perthnasol wrth atal cynlluniau llai o faint rhag cael eu cynnig. Cyfeiriodd yr ymatebydd olaf hefyd at y ffaith nad yw cynigion yr Alban yn y papur ymgynghori ar gyfer cynnydd mewn ffioedd yn ymwneud â chaniatadau ar y môr o gymorth.

3.53 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

3.54 Ceisiwyd cael eglurhad gan un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth /Corff Sector Cyhoeddus Arall ynghylch trefniadau trosiannol ar gyfer caniatadau ar y môr.

C4	Ymateb Llywodraeth Cymru

Trefniadau trosiannol

Nodir trefniadau ar gyfer trosglwyddo caniatadau eisoes yn Atodlen 7, Paragraff 8 o Ddeddf Cymru 2017. Ynghyd â Rheoliadau Deddf Cymru 2017 (Cychwyn Rhif 4), mae hyn yn golygu nad yw trosglwyddo awdurdod ar gyfer caniatadau Deddf Trydan 1989 oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru yn gymwys i unrhyw gais a wneir (ac sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf honno) i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn 1 Ebrill 2019.

Rhyngweithio â thrwydded forol

Cydnabyddir mai'r sefyllfa etifeddol, o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017, fyddai i ganiatadau gorsafoedd cynhyrchu ar y môr a'r drwydded forol gysylltiedig gael eu cyhoeddi gan ddau gorff gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sefydlu trefniadau gwaith priodol i sicrhau lefel dda o wasanaeth i ddatblygwyr yn ystod y cyfnod interim. Bwriad hirdymor Llywodraeth Cymru o hyd yw uno'r caniatadau ar y môr hyn.

Cyd-destun Polisi

Pan fydd mewn grym, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ("CMCC") fyddai'r brif ddogfen gwneud penderfyniadau ar gyfer caniatadau ar y môr. Fodd bynnag, ar ei ffurf ddrafft, nid yw'n gynllun mabwysiedig. Felly, mae ei bwysigrwydd yn y broses gwneud penderfyniadau yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Newidiadau i ffioedd

Er bod rhywfaint o wrthwynebiad wedi bod i'r cynnig yn yr ymgynghoriad i newid ffioedd ar gyfer caniatadau ar y môr Deddf Trydan 1989, ystyrir bod angen newid gan fod y ffioedd hyn wedi parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth ers 2006. Cyfeirir at y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban yn ein hymgynghoriad at ddibenion egluro, ac ni chynigir dilyn yr un dull codi tâl na chynnydd yn lefel y ffi.

Credwn fod ein dull arfaethedig yn deg, sy'n seilio ffioedd ar lefel y cymhlethdod a nifer y problemau a all wynebu prosiect. Yn y pen draw, yn unol ag egwyddorion Cyllid Cyhoeddus, ni fwriedir iddo wneud elw na cholled wrth benderfynu ar geisiadau am orsafoedd cynhyrchu. Er bod

hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn ffioedd ar gyfer cynlluniau llai o faint, credwn na fyddai ffi annheg yn cael ei chodi ar gynlluniau o'r fath am lefel y gwasanaeth a geir, ac mae ymgeiswyr o'r fath yn debygol o dalu cryn dipyn yn llai na'r rhai ar gyfer cynlluniau mwy o faint a mwy cymhleth.

Y camau nesaf

3.55 Bwriedir datblygu ein cynigion mewn perthynas â rhoi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr, fel y nodir yn y papur ymgynghori. Er mai felly y mae, bydd rhai newidiadau i eiriad ein strwythur ffioedd, at ddibenion manwl gywirdeb ac i gysoni'n well y ffioedd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau o dan Ddeddf Trydan 1989.

C5	**A ydych yn cytuno â'n cynigion i geisio trosglwyddo pŵer ffyrddfreintiau angenrheidiol a chaffael gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu?**
Er mwyn sicrhau parhad i ymgeiswyr o ran gorsafoedd cynhyrchu ar y môr ac i gymhathu'r ffyrddfreintiau angenrheidiol neu'r prosesau prynu gorfodol â'r prif ganiatâd, mae'r ymgynghoriad yn cynnig ceisio trosglwyddo pŵer o Lywodraeth y DU i roi ffyrddfreintiau angenrheidiol neu awdurdodau gorchmynion prynu gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Heb ateb**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	2	0	6	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	1	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	2	0	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	0	0	9	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**9**	**5**	**1**	**31**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**14**	**1**
Cyfanswm y Ganran	**93%**	**7%**

Adolygiad ystadegol

3.56 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i geisio trosglwyddo pŵer ffyrddfreintiau angenrheidiol a chaffael gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig. O blith y rhain, cytunodd nifer o ymatebwyr o'r categori ACLl a'r categori Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus

Arall ar hyn yn amodol ar roi sylwadau. Roedd naw ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant a chwe ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn niwtral o ran y cynigion. Nid oedd un ymatebydd arall yn cytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.57 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:

- Mae'n gwneud synnwyr i'r ffyrddfreintiau angenrheidiol a'r pwerau prynu gorfodol gael eu dal gan un awdurdod mewn perthynas â Chymru;

- I ategu prosesau datblygu symlach ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddu a storio mae hyn yn gynnig rhesymegol.

Trosolwg

3.58 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i geisio trosglwyddo pŵer ffyrddfreintiau angenrheidiol a gorchmynion prynu gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig ac yn ei gefnogi. Ystyriodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio na fyddai trosglwyddo'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru yn achosi unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y broses o gychwyn prosiectau newydd.

3.59 Nododd ymateb o Gorff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a oedd yn cytuno â'r cynnig, y byddai methu â darparu pwerau caffael gorfodol digonol yn gwneud Cymru yn lle llai atyniadol i fuddsoddi ynddo o ran prosiectau seilwaith ar raddfa fawr nes bod ateb hirdymor yn cael ei roi ar waith.

3.60 Nododd dau o ymatebwyr ACLl, a oedd yn cytuno â'r cynnig, y gallai trosglwyddo'r pwerau perthnasol leihau'r amseroedd presennol o ran gweithdrefnau ar gyfer y prosesau hyn a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr.

3.61 Nododd ymatebydd o ACLl mai Gweinidogion Cymru sydd yn y sefyllfa orau yn ei farn ef i roi neu awdurdodi ffyrddfreintiau angenrheidiol a gorchmynion prynu gorfodol.

3.62 Amlinellodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, er ei fod yn fodlon ar y cynnig, y dylid rhoi arweiniad sy'n nodi'n ddigonol y cydbwysedd o ran buddiant rhwng y cwmni trydan a'r tirfeddianwyr yr effeithir arnynt.

3.63 Mynegwyd pryder gan ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ynghylch p'un a yw'r mesurau a nodir yn Rhan 3 o'r ddogfen ymgynghori yn ddigonol i gyflawni'r dyhead o fod *"mewn safle blaenllaw... ym maes datblygu carbon".*
Hefyd, fod paragraff 2.3 o'r ddogfen ymgynghori yn gwrthddweud sylwadau cynharach drwy nodi nad yw'r trefniadau byrdymor yn *"darparu'r ystod lawn o bwerau sydd eu hangen ar y datblygwyr gan Weinidogion Cymru, fel pwerau i awdurdodi caffael gorfodol..."* Darparwyd sylwadau pellach gan yr ymatebwyr

yn nodi bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod ffyrddfreintiau angenrheidiol a phwerau prynu gorfodol ar gael i ddatblygwyr.

3.64 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C5	Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr gytuno â'r cynnig i geisio trosglwyddo pŵer ffyrddfreintiau angenrheidiol a chaffael gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig.

Mae sylwadau ar y cyfeiriad at *"[d]diogelu safle blaenllaw Cymru ym maes datblygu carbon"* yn ymwneud â gwneud newidiadau i'r broses bresennol o ran cael caniatâd cynllunio ar gyfer DNS. Mae'r mesurau yn Rhan 3 o'r papur ymgynghori yn ymwneud yn llwyr â newidiadau gweithdrefnol i'r gyfundrefn prynu gorfodol bresennol yng Nghymru. Nid oes cydberthynas rhwng y weithdrefn prynu gorfodol bresennol, h.y. gwneud a chadarnhau gorchmynion prynu gorfodol a'r gyfundrefn ganiatáu o ran DNS.

Rydym yn cytuno â sylwadau ymatebwyr sy'n nodi'r methiant i ddarparu trefniadau byrdymor digonol a fydd yn gwneud Cymru yn lle llai atyniadol i fuddsoddi ynddo o ran prosiectau seilwaith ar raddfa fawr. Mae hwn yn fater pwysig gan fod y pwerau i roi ffyrddfreintiau angenrheidiol neu awdurdodi caffael tir yn orfodol neu hawliau yn hanfodol i'r broses rhoi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu datganoledig. Ein bwriad yw parhau i geisio trosglwyddo pwerau i Weinidogion Cymru gan eu galluogi i gadarnhau gorchmynion prynu gorfodol, awdurdodi ffyrddfreintiau angenrheidiol neu dorri neu docio coed sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ar y tir datganoledig.

Rhagwelwn y bydd y broses rhoi caniatâd ar gyfer ceisiadau am ffyrddfreintiau angenrheidiol neu orchmynion i dorri a thocio coed sy'n gysylltiedig â llinellau uwchben datganoledig ac nad ydynt yn rhan o Brosiect Seilwaith yng Nghymru (WIP), ar wahân i'r gyfundrefn WIC newydd.

Y camau nesaf

3.65 Er mwyn sicrhau bod y trefniadau interim yn darparu'r ystod lawn o bwerau sydd eu hangen ar ddatblygwyr, byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud â'r pwerau o dan Atodlen 3 a 4 i Ddeddf Trydan 1989 fel y gall Gweinidogion Cymru awdurdodi gorchmynion prynu gorfodol, rhoi caniatâd ar gyfer ffyrddfreintiau angenrheidiol neu orchmynion i dorri neu docio coed sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu ar y tir datganoledig.

C6	A ydych yn cytuno â'r egwyddorion (a nodir ym Mharagraffau 3.26 i 3.43) a fydd yn sail i broses unedig ar gyfer rhoi caniatâd? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn nodi nifer o egwyddorion a fydd yn sail i broses unedig newydd ar gyfer rhoi caniatâd. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys seilio penderfyniadau ar bolisi clir, darparu fframiau amser statudol, symleiddio nifer y caniatadau sy'n ofynnol ac atgyfnerthu rôl cymunedau lleol. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a yw ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion hyn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	**Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio**	1	3	1	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	3	1	3	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	1	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	3	0	6	9
E	Y Sector Gwirfoddol	1	1	0	0	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**8**	**11**	**4**	**23**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**19**	**4**
Cyfanswm y Ganran	**82%**	**18%**

Adolygiad ystadegol

3.66 O blith y rhai a ymatebodd (naill ai ‘Ydw, ydyn’, ‘Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau pellach’ neu ‘Nac ydw, ydyn’) i gwestiwn yr ymgynghoriad, cytunodd 82% â'r egwyddorion a nodir ym Mharagraffau 3.26 i 3.43 o'r papur ymgynghori.

3.67 Roedd ymatebwyr o'r categori Sector Gwirfoddol a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynigion heb unrhyw wrthwynebiadau. Gwnaeth y rhai o'r categorïau Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, ACLl ac Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ddarparu ymatebion cymysg, er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r categorïau hyn yn cytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.68 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 6 fel a ganlyn:

- Cytundeb cyffredinol â'r cynigion sy'n ategu cyfundrefn rhoi caniatâd unedig;
- Angen mwy o fanylion am sut y bydd polisi a deddfwriaeth yn dylanwadu ar y broses rhoi caniatâd;
- Diffyg manylion ynghylch rhai materion.

Trosolwg

3.69 Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â chwestiwn yr ymgynghoriad, codwyd nifer o ymholiadau a materion mewn perthynas ag egwyddorion penodol.

3.70 Nododd ymatebwyr o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant mai prin oedd y cyfeiriad yn y papur ymgynghori at ymgyngoreion statudol a bod yn rhaid eu hystyried wrth lunio'r broses rhoi caniatâd, yn enwedig ar rai materion megis iechyd. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd arall o'r categori Asiantaeth Llywodraeth /Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu'n effeithiol ag ymgyngoreion arbenigol.

3.71 Derbyniwyd sylw hefyd gan ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall mewn perthynas ag ymatebion o sylwedd gan ymgyngoreion statudol, yn awgrymu y dylai'r hyn sy'n gyfystyr ag 'ymateb o sylwedd' gael ei ddiffinio er mwyn eglurder.

3.72 Derbyniwyd sawl sylw hefyd gan amrywiaeth o randdeiliaid mewn ymateb i roi ystyriaeth ar gyfer deddfwriaeth a pholisi. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Diffyg cyfeiriad at 'Ffyniant i Bawb' a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;

- Angen eglurhad ynghylch sut mae'r egwyddorion rhoi caniatâd wedi'u hategu gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Pholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru;
- Sut y bydd y fframweithiau polisi yn rhyngweithio â'i gilydd a chyda pholisi perthnasol y DU (h.y. Datganiadau Polisi Cenedlaethol);
- Yr angen i adolygu meysydd perthnasol o'r gyfraith.

3.73 Yn yr un modd, cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch caniatadau eilaidd. Gwnaethant nodi bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r dull gweithredu hwn.

3.74 At hynny, awgrymodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorydd Busnes /Cynllunio a'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda rhanddeiliaid perthnasol i gyflawni caniatadau eilaidd ac, er cysondeb, y dylai'r math o ganiatadau a gaiff eu cynnwys fel rhan o WIC gyfateb i rai'r Cynlluniau Gwella Gorsafoedd Cenedlaethol.

3.75 Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau penodol ac eang eu cwmpas gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, gan gynnwys:

- Materion trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr mewn perthynas ag effaith, ymgynghori ac awdurdodau penderfynu;
- Diffyg manylion ynghylch sut y gellir atgyfnerthu rôl cymunedau lleol;
- Dylai awgrymu trafodaethau cyn ymgeisio gydag ACLlau perthnasol fod yn orfodol;
- Manylion pellach ynghylch rhoi ceisiadau ar y llwybr carlam;
- Caniatáu i'r 'siop un stop' fod yn ddewisol, yn enwedig ar gyfer arwerthiannau Contractau er Gwahaniaeth;
- Diffyg manylion yn gyffredinol ynghylch y broses WIC.

3.76 O blith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion, nid oedd yr ymgynghoriad, ym marn Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, yn mynd yn ddigon pell drwy awgrymu 'any scheme can be shaped with their comments in mind' yn ystod y cam cyn ymgeisio o gymharu â Deddf Cynllunio 2008 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos yr ystyriaeth a roddwyd i ymatebion perthnasol.

3.77 Cododd Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio arall bryderon ynghylch goblygiadau adnoddau wrth gyflawni cyfundrefn rhoi caniatâd newydd, diffyg atebolrwydd ac awgrymodd fod angen diffinio a safoni'n fwy o ran y broses rhoi caniatâd a gynigir.

3.78 Cytunodd ACLl yn fras â'r egwyddorion, ond roedd yn teimlo na allai gytuno'n llawn gan ei fod yn credu bod cyfle sylweddol i fireinio nifer o'r cynigion, gan gynnwys:

- Rôl Cyd-bwyllgorau yn y broses;
- Sicrhau nad yw rôl ACLlau yn cael ei dibrisio, a chydnabod ar yr un pryd y pwysau o bosibl ar adnoddau;

- Amlinellu beth y dylai ymgynghori cymunedol ei gyflawni (h.y. os yw'n ymwneud â llunio datblygiad, ni ddylai'r gwaith ymgysylltu fod yn gyfyngedig i sylwadau ysgrifenedig, ond dylai hefyd gynnwys gweithdai a sesiynau);
- Caniatáu i ACLlau gyflwyno LIR technegol os yw eu barn yn wahanol i farn aelodau etholedig;
- Sut y bydd gorfodi yn gweithredu.

3.79 Roedd un Unigolyn Preifat yn anghytuno'n llwyr â'r egwyddorion, a dywedodd y bydd hwylustod yn drech na barn leol, buddiannau ac arbenigedd.

3.80 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ffrâm amser glir ar gyfer gweithredu.

C6	Ymateb Llywodraeth Cymru

Ymgyngoreion statudol

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys ymgyngoreion statudol yn y broses rhoi caniatâd, yn enwedig oherwydd eu gwybodaeth a'u harbenigedd mewn meysydd penodol. Bydd gwybodaeth fanwl a chynigion yn ymwneud ag ymgyngoreion statudol sy'n gysylltiedig â'r broses rhoi caniatâd yn destun ymgynghoriad pellach.

Ystyried deddfwriaeth a pholisi

Bydd cyflwyno cyfundrefn rhoi caniatâd bwrpasol ac unedig yng Nghymru yn golygu rhoi ystyriaeth fanwl i ddeddfwriaeth a pholisi presennol a sut y caiff hyn ei gynnwys yn y broses rhoi caniatâd. Mae hyn ar waith.

Caniatadau eilaidd

Rydym yn cytuno y bydd angen cynnal trafodaethau parhaus ar gyfer 'siop un stop' gydag awdurdodau rhoi caniatâd arferol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni unrhyw ganiatadau eilaidd sy'n gysylltiedig â WIC mewn ffordd amserol, heb effeithio ar ystyriaethau perthnasol.

Sylwadau cyffredinol

Rydym wedi ystyried y bydd y datblygiadau arfaethedig yn creu problemau trawsffiniol o bosibl rhwng Cymru a Lloegr a sut y gall hyn effeithio ar gynigion hysbysu ac ymgynghori; fodd bynnag, dim ond ar gyfer datblygiadau arfaethedig, neu rannau o ddatblygiadau, y gallwn ddeddfu, yng Nghymru neu o fewn dyfroedd Cymru.

Byddwn yn sicrhau na chaiff rôl ACLlau ei dibrisio drwy sicrhau eu bod yn chwarae rôl allweddol yn y broses rhoi caniatâd ar y cyfle cyntaf. Byddwn hefyd yn annog datblygwyr i ddechrau dialog cynnar ag ACLlau wrth ddatblygu eu prosiect; fodd bynnag, nid yw cynnal trafodaethau cyn

ymgeisio gydag ACLlau yn ofyniad gorfodol yn ein barn ni.

Bydd manylion pellach, megis gweithredu llwybr carlam, gorfodi a materion gweithdrefnol eraill yn destun ymgynghoriad mwy manwl.

Y camau nesaf

3.81 Ein bwriad yw datblygu ein cynigion mewn perthynas â'r egwyddorion ar gyfer cyfundrefn rhoi caniatâd unedig yng Nghymru. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod angen cynigion mwy manwl ar gyfer agweddau amrywiol ar y broses. Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain mewn ymgynghoriad yn y dyfodol ar fanylion y broses.

C7	**A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar y broses o roi caniatâd seilwaith o'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir o dan broses Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhoi cyfundrefn gwbl newydd ar gyfer rhoi caniatâd ar waith yn ei lle? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig creu un broses rhoi caniatâd unedig yng Nghymru sy'n adeiladu ar egwyddorion DNS, ac sydd â chwmpas ehangach i gynnwys mathau eraill o ganiatâd. Bydd y cynnig newydd hwn yn disodli proses bresennol DNS yn ei chyfanrwydd ac yn cael gwared ar brosesau rheoleiddio eraill yn rhannol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	3	3	0	4	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**10**	**8**	**1**	**27**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**18**	**1**
Cyfanswm y Ganran	**94%**	**6%**

Adolygiad ystadegol

3.82 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 94% â'r cynnig i gael gwared ar y broses o roi caniatâd seilwaith o'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir o dan

broses Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhoi cyfundrefn gwbl newydd ar gyfer rhoi caniatâd ar waith yn ei lle.

3.83 Cytunodd ymatebwyr o'r categorïau Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Dim ond un person a anghytunodd â'r cynnig, a gynrychiolir yn y categori 'Eraill' o ymatebwyr.

Themâu allweddol

3.84 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 7 fel a ganlyn:

- Mae mwyafrif sylweddol yn cytuno ac yn cefnogi'r cynnig ar gyfer cael gwared ar y broses o roi caniatâd seilwaith o'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir o dan broses Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhoi cyfundrefn gwbl newydd ar gyfer rhoi caniatâd ar waith yn ei lle;

- Er eu bod yn cytuno, nododd ymatebwyr fod angen mwy o fanylion ar sut y bydd cyfundrefn rhoi caniatâd unedig yn gweithredu yn ymarferol.

Trosolwg

3.85 Daeth ymatebion i'r casgliad y byddai cael gwared ar DNS a chreu cyfundrefn rhoi caniatâd newydd ac unedig yn cael ei gefnogi. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw newidiadau sicrhau hyblygrwydd i bob cyfranogwr, rôl gryfach ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a rhaid iddynt beidio â bod yn rhy gymhleth neu gostus ar gyfer darpar ddatblygwyr.

3.86 Nododd un Busnes sut y byddai'n annymunol iawn i ganiatâd cynllunio cyffredin, DNS a chyfundrefn rhoi caniatâd newydd gyd-fodoli a chyfiawnhaodd Busnes arall ei gefnogaeth i'r cynnig drwy awgrymu nad yw cyfundrefn bresennol DNS wedi ei chynllunio i ymdrin â'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â phrosiectau ar raddfa fwy, rhywbeth y gellid ei gyflawni drwy gyflwyno cyfundrefn rhoi caniatâd newydd ac unedig.

3.87 Er i nifer gefnogi'r cynnig mewn egwyddor, roedd nifer o ymatebwyr am gael mwy o fanylion am y ffordd y byddai'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chyfundrefn rhoi caniatâd newydd yn fuddiol.

3.88 Er enghraifft, cwestiynodd un ACLl sut y byddai'r broses yn gweithredu o ran rhoi caniatadau eilaidd ac a fyddai'r sefydliadau sy'n eu rhoi ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny, neu a fyddai hyn yn cael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru. Dywedodd ACLl arall fod yn rhaid amlinellu amserlen glir ar gyfer gweithredu.

3.89 Yn yr un modd, gofynnodd Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant am ragor o wybodaeth am rôl a chwmpas ymgyngoreion statudol.

3.90 Ymatebodd dau o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y byddai'n well rhoi caniatâd cynllunio tybiedig yn hytrach na datgymhwyso'r angen amdano, gan y byddai hyn yn hwyluso'r gwaith o ddatrys materion manwl, gan gynnwys mân amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd yn lleol.

3.91 Nododd un ACLl, er ei fod yn gefnogol, fod y gyfundrefn newydd arfaethedig yn cynrychioli parhad cam i ffwrdd o wneud penderfyniadau yn lleol i wneud penderfyniadau yn genedlaethol ac fel y cyfryw, rhaid i gyfranogiad lleol fod yn rhan lawn o broses rhoi caniatâd newydd er mwyn iddo gael cefnogaeth y cyhoedd.

3.92 Amlinellodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac ymatebydd o'r categori Busnes eu cefnogaeth i'r gyfundrefn rhoi caniatâd arfaethedig, yn ogystal â'r dull o fabwysiadu trothwyon gorfodol a dewisol, a fydd yn golygu y gall ymgeiswyr ddewis y ffordd fwyaf priodol i roi caniatâd.

3.93 Roedd sylwadau eraill, mwy cyffredinol yn cynnwys ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth yn awgrymu y dylid diweddaru gwefan yr Arolygiaeth Gynllunio i gynnwys cyfundrefn rhoi caniatâd newydd gan ei bod yn aneglur ac ychydig yn ddryslyd o'i chymharu â fformadu gwefan newydd NSIP, a nododd ymatebydd o'r categori Busnes y bydd angen i broses rhoi caniatâd newydd gael ei hategu gan adran ag adnoddau digonol.

3.94 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C7	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Mwy o fanylion am brosesau a gweithdrefnau</u>

Bydd rhoi mwy o fanylion am y prosesau a'r gweithdrefnau a fydd yn llywodraethu cyfundrefn rhoi caniatâd unedig yn destun ymgynghoriad pellach yn y dyfodol, wrth i waith ymchwil gael ei wneud a chasglu tystiolaeth ychwanegol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â rôl a chwmpas ymgyngoreion statudol.

<u>Cyfranogiad lleol</u>

Bydd cyfranogiad cymunedau lleol ac ACLlau yn rhan bwysig o'r gyfundrefn rhoi caniatâd arfaethedig. Ein bwriad yw sicrhau bod datblygwyr yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac ACLlau ar y cam cynharaf posibl yn y broses ddatblygu. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd niferus i gymunedau lleol roi sylwadau o'r cam cyn ymgeisio, hyd at y cam archwilio. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ACLlau a byddwn yn ceisio cyfleoedd i ddatblygwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd o feysydd lleol yn ystod y broses rhoi caniatâd.

Caniatadau cynllunio tybiedig

Rydym yn cydnabod y posibilrwydd o dybio rhai caniatadau yn hytrach na'u datgymhwyso. Fodd bynnag, bydd angen gwneud gwaith ymchwil ac ymgynghori pellach cyn y gellir gwneud penderfyniad ffurfiol ar y ffordd orau o fynd ati i wneud hyn.

Y camau nesaf

3.95 Rydym yn cynnig parhau i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cyfundrefn rhoi caniatâd unedig a newydd i Gymru, yn dilyn pwerau datganoledig newydd o Ddeddf Cymru 2017.

C8	**A ydych yn cytuno ag egwyddor trothwyon dewisol ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cyflwyno trothwyon 'dewisol' ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru ochr yn ochr â throthwyon gorfodol. Lle y byddai angen i brosiectau sy'n dod o fewn y trothwyon gorfodol gael WIC, gallai'r prosiectau hynny o fewn y trothwyon dewisol ddewis cael WIC neu ganiatâd cynllunio gan yr ACLl.	

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	2	1	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	1	5	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	3	0	1	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**7**	**9**	**3**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**84%**	**16%**

Adolygiad ystadegol

3.96 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 84% â'r cynnig ar gyfer cyflwyno trothwyon dewisol, a dim ond tri ymatebydd a anghytunodd â hynny (un o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, un o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un o'r categori 'Eraill').

3.97 Roedd yr ymatebion o'r categorïau ACLl a Chyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynnig, heb unrhyw wrthwynebiadau gan y grwpiau hyn.

Themâu allweddol

3.98 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 8 fel a ganlyn:

- cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig;
- Bydd cyflwyno trothwyon 'dewisol' yn helpu i hyrwyddo a chyflawni hyblygrwydd yn y broses rhoi caniatâd seilwaith;
- Byddai manylion a chanllawiau pellach ar drothwyon dewisol yn fuddiol i'r diwydiant datblygu o ran pa fathau o brosiectau y dylid eu hystyried ar gyfer llwybr WIC a pha rai na ddylid eu hystyried.

Trosolwg

3.99 Daeth ymatebion i'r casgliad bod yn rhaid i unrhyw gynigion sicrhau hyblygrwydd i bob cyfranogwr, a rôl gryfach i gymunedau a rhaid sicrhau nad ydynt yn mynd yn fwy cymhleth neu gostus.

3.100 Roedd ACLlau yn arbennig o gadarnhaol o'r cynnig gan nodi ei bod yn galonogol y cydnabyddir y gall cyfnodau penderfynu ACLl ar gyfer rhai mathau o dechnolegau fod yn gyflymach na phroses DNS.

3.101 Roedd un ACLl yn cytuno â'r defnydd o drothwyon dewisol ar gyfer llawer o fathau o ddatblygiad. Bydd ACLl yn gallu dangos i ddatblygwyr mai nhw ddylai weithredu fel y corff penderfynu a gall datblygwyr ddewis defnyddio Gweinidogion Cymru os nad ydynt yn credu bod yr ACLl yn perfformio'n ddigon da, gan annog ACLlau felly i wella eu gwasanaeth.

3.102 Cwestiynodd ACLl arall a fyddai caniatadau ar wahân (lle y bo angen) yn cael eu hystyried o dan y cyfundrefnau rhoi caniatâd presennol ac a allai'r un math o brosiect fod yn destun cais WIC neu gais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn dibynnu ar farn Gweinidogion Cymru.

3.103 Yn yr un modd, codwyd cwestiwn arall gan ACLl yn gofyn am y sefyllfa o ran rhoi arweiniad i helpu'r diwydiant datblygu ac ACLlau o ran pa brosiectau a ddylai gael eu hystyried gan broses WIC a pha rai na ddylai gael eu hystyried.

3.104 Fodd bynnag, er ei fod yn cytuno â'r cynnig yn gyffredinol, mynegodd un ACLl bryder ynghylch p'un ai trothwyon dewisol yw'r cyfrwng gorau i gyflawni hyblygrwydd ac awgrymodd y gallai fod yn well creu proses gwmpasu ar y cam cyn ymgeisio i asesu ai Gweinidogion Cymru neu'r ACLl a ddylai ymdrin â'r cais yn hytrach na'i adael i ddatblygwyr benderfynu ar hyn.

3.105 Roedd ymatebwyr o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan o'r cynnig, gan nodi cefnogaeth i'r potensial i ddatblygwyr ddewis eu llwybr rhoi caniatâd dewisol, cyhyd â bod y trothwyon

yn glir ac yn hawdd i'w dehongli. Fodd bynnag, cyflwynwyd sylwadau hefyd yn nodi ei fod yn hollbwysig y dylid rhoi polisi ac arweiniad clir ar waith, gan nodi'r meini prawf ar gyfer gwneud dewis a ph'un a fyddai Gweinidogion Cymru yn cadw unrhyw bwerau ymyrryd.

3.106 Awgrymodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd, lle y bydd prosiect yn methu o fewn categori 'dewisol', y dylai ymgeiswyr ymgynghori â Gweinidogion Cymru a'r ACLl i geisio arweiniad ar y llwybr gweithdrefnol priodol.

3.107 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nododd un ymatebydd na ddylai'r categori trothwyon, sy'n ymwneud â llinellau trydan uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu, gynnwys unrhyw waith i newid neu uwchraddio llinell hyd at a chan gynnwys 132KV, os oes rheoliadau esemptio presennol sy'n nodi gofynion statudol ar gyfer y mathau hyn o brosiectau.

3.108 Dywedodd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y gall yr egwyddor o drothwyon dewisol achosi dryswch o ran y gyfundrefn rhoi caniatâd priodol ar gyfer rhai prosiectau, gan gynnwys y fframwaith a'r amserlen i'w dilyn. Gwnaeth yr ymatebydd hefyd ystyried bod angen bod yn fwy eglur o ran y modd y mae ymgeiswyr yn gwneud penderfyniad am y weithdrefn ar gyfer prosiectau dewisol a sut mae hyn yn effeithio ar y corff penderfynu. At hynny, ceisiwyd eglurder i fframweithiau statudol a chyfnodau amser gael eu cymhwyso at ymgyngoreion statudol a chyrff eraill, megis y rhai sy'n gweithredu fel y rheoleiddiwr perthnasol.

3.109 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C8	Ymateb Llywodraeth Cymru

Caniatadau ar wahân

Ein bwriad yw i unrhyw ganiatadau ar wahân sy'n ofynnol fel rhan o WIC gael eu cynnwys fel rhan o un caniatâd neu'n ganiatâd tybiedig.

Canllawiau

Er mai ein bwriad yw cyhoeddi trothwyon dewisol, byddwn hefyd yn ceisio bod yn fwy eglur o ran yr opsiynau sydd gan ddatblygwyr lle mae prosiect posibl yn methu o fewn y trothwyon 'dewisol' er mwyn helpu i benderfynu pa lwybr yw'r un a ffefrir ganddynt.

Diwygiadau i drothwyon arfaethedig

Bydd trothwy arfaethedig 1E yn cynnwys esemptiad lle mae rheoliadau esemptio presennol sy'n nodi gofynion statudol ar gyfer y mathau hyn o brosiectau, ac o 1 Ebrill 2019, bydd y rhain ar ffurf hawliau datblygiad a ganiateir nad ydym yn bwriadu eu newid ar hyn o bryd.

Ymgyngoreion statudol

Bydd ystyriaethau manylach sy'n ymwneud ag ymgyngoreion statudol, gan gynnwys fframweithiau, amserlenni ac ati, yn destun ymgynghoriad pellach.

Llwybr rhoi caniatâd priodol

Er ein bod yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i ddarpar ymgeiswyr ddewis y llwybr rhoi caniatâd mwyaf priodol, rydym wedi ein hargyhoeddi bod angen pwerau ymyrryd gan Weinidogion Cymru. Mae hyn er mwyn sicrhau mai'r awdurdod priodol sy'n penderfynu ar ddatblygiadau sydd o arwyddocâd a chymhlethdod digonol. Mewn ymateb, rydym yn cynnig sefydlu pŵer gwneud cyfarwyddiadau i alluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu pwy yw'r awdurdod priodol cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Y camau nesaf

3.110 Ein bwriad yw datblygu drwy gyflwyno trothwyon gorfodol a dewisol fel rhan o broses rhoi caniatâd unedig, a fydd yn fuddiol i bob parti dan sylw.

3.111 Er y gall ymgeiswyr lunio barn ar b'un a yw prosiect arfaethedig yn dod o fewn y trothwyon 'dewisol', rydym wedi cael ein hargyhoeddi mai Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu yn y pen draw pa lwybr y dylai cais ei gymryd. Bwriedir egluro ble y caiff y pwerau hyn eu defnyddio mewn canllawiau a sut y byddent yn gweithredu'n ymarferol.

C9	**A ydych yn cytuno mai Gweinidogion Cymru, yn y pen draw, a ddylai benderfynu fesul achos p'un a yw Prosiect Seilwaith dewisol yng Nghymru yn gymwys fel y cyfryw ai peidio? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y gall ymgeiswyr ddewis p'un a ddylid rhoi caniatâd i'w datblygiad arfaethedig drwy WIC ai peidio, lle mae'r datblygiad arfaethedig yn rhan o'r trothwyon 'dewisol'. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig mai Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu'n derfynol ar y materion hyn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	1	4	1	4	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	1	5	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	1	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**5**	**10**	**3**	**29**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**83%**	**17%**

Adolygiad ystadegol

3.112 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn, fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 83% â'r cynnig mai Gweinidogion Cymru ddylai

benderfynu yn y pen draw ar sail achos unigol p'un a yw Prosiect Seilwaith Cymru dewisol yn gymwys fel y cyfrif ai peidio.

3.113 Cytunodd Ymgynghorwyr Busnes/Cynllunio, ACLlau a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Cytunodd dau ymatebydd â'r cynnig, un o'r categori Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un o'r categori 'Eraill'.

Themâu allweddol

3.114 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 9 fel a ganlyn:

- Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno ac yn cefnogi'r cynnig mai Gweinidogion Cymru, yn y pen draw, a ddylai benderfynu fesul achos p'un a yw Prosiect Seilwaith dewisol yng Nghymru yn gymwys fel y cyfryw ai peidio; ac

- Ansicrwydd ynghylch p'un ai'r ymgeisydd neu Weinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch p'un a yw datblygiad arfaethedig yn gymwys fel WIP drwy'r llwybr trothwy 'dewisol'.

Trosolwg

3.115 Roedd yr ymatebwyr o blaid y cynnig ar y cyfan, gydag ACLl a dau ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn nodi y byddai'n rhesymol i'r penderfyniad fod yn nwylo Gweinidogion Cymru os ystyrir bod arwyddocâd cenedlaethol i brosiect.

3.116 Fodd bynnag, cododd nifer o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig rai mân bryderon hefyd. Nododd un ACLl nad oes ganddynt y pŵer i ailgyfeirio datblygwyr at Weinidogion Cymru os credant fod effeithiau datblygiad arfaethedig yn golygu ei fod yn gymwys fel WIP, sy'n arwain at anghydbwysedd o ran pŵer o blaid datblygwyr.

3.117 Yn ogystal â hyn, nododd ymatebydd o'r categori Busnes y dylid sefydlu polisi ac arweiniad clir, yn nodi'r meini prawf ar gyfer gwneud dewis a ph'un a fyddai Gweinidogion Cymru yn cadw unrhyw bwerau ymyrryd. Cefnogwyd y broses o gyflwyno canllawiau hefyd gan un ACLl ac ymatebwyr o'r categori Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall.

3.118 Ymatebodd rhywun o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio gan nodi bod angen sefydlu rhyw fath o weithdrefn sy'n gymwys yn gyffredinol ar gyfer penderfynu p'un a fyddai prosiect penodol yn cael ei drin fel WIP, a ph'un a yw'n dderbyniol cynnwys unrhyw ddatblygiad cysylltiedig (nad yw'n WIP ei hun) o fewn cwmpas cais WIC.

3.119 Er eu bod yn cytuno â'r cynnig, awgrymodd nifer o ymatebwyr nad yw'n glir pwy fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch p'un a fyddai datblygiad arfaethedig yn gymwys fel WIP.

3.120 Awgrymodd un ACLl mai penderfyniad Gweinidogion Cymru fyddai hynny, ar y cyfle cynharaf posibl a chan ymgynghori â'r ACLl(au) perthnasol ar y cam hwn. Yn yr un modd, ategodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y safbwynt hwn gan awgrymu hefyd y dylid cyflwyno dull lle gall datblygwr gael cadarnhad ffurfiol y caiff ei gais ei drin fel WIC neu beidio i ddileu unrhyw amheuaeth.

3.121 O'r sawl a anghytunodd â'r cynnig, cwestiynodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ddiben darparu trothwyon 'dewisol' er mwyn i ddatblygwyr benderfynu ar eu llwybr rhoi caniatâd, gan y gallai hyn danseilio sicrwydd yn y broses o bosibl. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i ba bryd, yn ystod y broses, y gwneir penderfyniad ynghylch pa lwybr rhoi caniatâd y dylid ei ddilyn.

3.122 Ymhellach, nododd ymatebydd ei fod yn anghytuno â'r cynnig, gan honni na ddylai fod unrhyw amwysedd ynghylch pa lwybr rhoi caniatâd y dylid ei ddilyn ac mai ar sail trothwyon yn unig y dylid penderfynu hyn.

3.123 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C9	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Penderfynu ar WIP 'dewisol'</u>

Pan fydd datblygiad arfaethedig yn dod o fewn trothwy 'dewisol' a gyhoeddwyd, gall ymgeiswyr wneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylai eu prosiect ddilyn llwybr WIC neu gael ei benderfynu yn lleol, yn dibynnu ar yr hyn sydd orau ganddynt. Dylid gwneud y penderfyniad hwn ar y cyfle cynharaf posibl yn ystod y cam cyn gwneud cais.

Fodd bynnag, pan roddir y penderfyniad hwn gerbron Gweinidogion Cymru, efallai y byddant yn dod i gasgliad gwahanol ynghylch p'un a oes arwyddocâd cenedlaethol i brosiect arfaethedig a ph'un a ddylai ddilyn llwybr WIC. Felly, rydym yn ystyried ei bod yn briodol i'r penderfyniad terfynol fod yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru.

Rydym yn ystyried bod hwn yn gynnig addas, gan roi eglurder a sicrwydd i bob parti dan sylw ar gam cynnar, yn ogystal â rhoi dewis i ymgeiswyr o ran pa lwybr rhoi caniatâd sy'n gymesur.

<u>Canllawiau</u>

Rydym yn cydnabod y bydd cyfundrefn rhoi caniatâd newydd, unedig ar gyfer Cymru yn golygu y bydd angen canllawiau wedi'u hanelu at bob rhanddeiliad, sy'n nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau manwl o'r cam cyn gwneud cais, i'r cam ar ôl rhoi caniatâd a'r cam gorfodi. Fel rhan o'r canllawiau hyn, byddwn yn ceisio rhoi eglurder ar drothwyon datblygu 'dewisol' a'r opsiynau sydd ar gael i ddatblygwyr, yn ogystal â'r achosion

lle gall Gweinidogion Cymru benderfynu ar gais.

Y camau nesaf

3.124 Gan y gellir ystyried bod arwyddocâd cenedlaethol i ddatblygiadau arfaethedig penodol a gyflwynir fel rhan o gyfundrefn rhoi caniatâd unedig gan un blaid, ond nid gan un arall, rydym yn ystyried ei bod yn briodol mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod penderfynu ynghylch pa lwybr rhoi caniatâd y dylid ei ddilyn, wrth ystyried cynigion sy'n dod o fewn trothwy 'dewisol'.

3.125 Felly, rydym yn cynnig datblygu'r cynnig hwn a gwneud Gweinidogion Cymru yn benderfynwyr o ran pwy yw'r awdurdod rhoi caniatâd. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ac yn eu datblygu er mwyn rhoi pŵer cymryd cyfeiriad i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gynnig gael ei benderfynu ganddynt yn achos WIPs yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y gellir defnyddio'r pŵer cymryd cyfeiriad hwn cyn i unrhyw ymgynghoriad cyn gwneud cais gael ei gynnal.

C10	**A ydych yn cytuno y dylai dynodiad yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) i Gymru fod yn faen prawf o ran p'un a yw datblygiad yn gymwys fel Prosiect Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y bydd datblygiad y nodwyd bod arwyddocâd cenedlaethol iddo drwy'r trefniadau WIC newydd yn dal i gael ei benderfynu ar y lefel genedlaethol. Mae hefyd yn cynnig y dylai unrhyw ddynodiad yn y FfDC fod yn drech na'r gallu i gyflwyno cais i'r awdurdod rhoi caniatâd arferol.	

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	1	3	1	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	2	4	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	3	0	1	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	2	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**6**	**11**	**2**	**27**	**45**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**17**	**2**
Cyfanswm y Ganran	**89%**	**11%**

Adolygiad ystadegol

3.126 Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn, fodd bynnag, o'r rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 83% â'r cynnig y bydd datblygiad y nodwyd bod arwyddocâd cenedlaethol iddo drwy'r trefniadau WIC newydd yn dal i gael ei benderfynu ar lefel genedlaethol.

3.127 Cytunodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, y categori ACLlau a'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r ymatebwyr yn y categori 'Eraill' oll â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Dim ond un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector

Cyhoeddus Arall ac un ymatebydd o'r categori Busnes a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.128 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 10 fel a ganlyn:

- Mae mwyafrif helaeth yn cytuno â'r cynnig bod datblygiad y nodwyd bod arwyddocâd cenedlaethol iddo drwy'r trefniadau WIC newydd yn dal i gael ei benderfynu ar lefel genedlaethol ac yn cefnogi'r cynnig hwnnw; ac

- Mae angen rhagor o fanylion gan fod hwn yn gam mor gynnar yn y prosesau FfDC a WIC.

Trosolwg

3.129 Ceisiodd nifer o ymatebwyr ragor o eglurhad ar sut y byddai'r prosesau FfDC a WIP yn rhyngweithio â'i gilydd. Nododd un ACLl nad oedd yn glir ar y funud beth y bydd datblygiadau WIPs yn ei gynnwys a pha mor glir y caiff datblygiad ei ddiffinio yn y FfDC. Nododd ACLl arall y dylid hyrwyddo dull polisi cryf y ceir tystiolaeth ohono yn y FfDC a Pholisi Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod cynlluniau seilwaith yn briodol.

3.130 Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ei bod yn anodd rhoi unrhyw sylwadau manwl ar y cynigion, o ystyried mai megis dechrau yr oedd y prosesau FfDC a WIP.

3.131 Yn dilyn y sylwadau yn gofyn am fwy o fanylion ar y gydberthynas rhwng y FfDC a WIPs, cyflwynwyd rhagor o sylwadau gan ymatebwyr.

3.132 Er eu bod yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor, cwestiynodd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un o'r categori Busnes yr angen am drothwyon WIC a dynodiad yn y FfDC oherwydd yr ystyrir ei bod yn debygol mai nifer fach iawn o brosiectau a gaiff eu cynnwys yn y FfDC y byddai'r gyfundrefn WIC arfaethedig yn briodol ar eu cyfer, nad ydynt eisoes yn cael eu dal gan y trothwyon.

3.133 Cytunodd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un o'r categori Busnes â'r cynnig, gan honni y byddai'n drech na'r gallu i gyflwyno cais i'r awdurdod rhoi caniatâd arferol o dan gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'prosiectau seilwaith dewisol', yn cynnwys y gallu i Weinidogion Cymru yn y pen draw wneud y penderfyniad ar b'un a yw'r prosiect yn WIP.

3.134 Roedd dau ACLl yn ystyried y byddai'n achos posibl o wrthdaro buddiannau pe byddai Gweinidogion Cymru yn dynodi ardal o Gymru ar gyfer datblygiad mawr ac yna'n penderfynu ar unrhyw gais/ceisiadau dilynol. Roeddent am gael sicrwydd o asesiad llawn ac ystyried proses o graffu ar safbwyntiau lleol.

3.135 Nid oedd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, fodd bynnag, nodwyd mewn egwyddor, y dylai amrywiaeth lawn o ddatblygiadau allu cael eu hawdurdodi drwy WIC, ar yr amod eu bod o'r maint cywir a bod arwyddocâd cenedlaethol iddynt.

3.136 O'r ymatebwyr hynny a anghytunodd â'r cynnig, nododd un o'r categori Busnes na fyddai unrhyw sicrwydd y byddai'r FfDC yn cael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau y gellir cynnwys prosiectau pan gânt eu cynnig. Yn yr un modd, nododd un ymatebwr o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall na fyddai'r FfDC yn addas fel dull penderfynu ar gyfer prosiectau ar y môr a nododd nad yw'n glir sut y byddai'r FfDC a'r CMCC yn cael eu hystyried ochr yn ochr yn y cyfundrefnau gwneud penderfyniadau perthnasol.

3.137 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C10	Ymateb Llywodraeth Cymru

Sylwadau cyffredinol am y FfDC

Rydym yn cydnabod bod y FfDC yn parhau i gael ei ddatblygu. Er mai felly y mae, rydym yn ceisio barn ar yr egwyddor o ddynodiadau yn y FfDC yn dod yn WIPs. Caiff manylion pellach am y math o brosiectau a'u natur eu cyhoeddi fel rhan o'r FfDC.

Gwrthdaro Buddiannau

Nid ydym yn credu bod gwrthdaro buddiannau am fod Gweinidogion Cymru yn dynodi ardaloedd ar gyfer datblygiad mawr ac yna'n gweithredu fel yr awdurdod penderfynu ar gyfer ceisiadau gan fod y dull gweithredu hwn yn cael ei adlewyrchu yn lleol drwy ddyraniadau CDLl. Er bod dyraniadau o'r fath yn bodoli, mae ACLlau a Gweinidogion Cymru yn parhau i benderfynu ar geisiadau yn erbyn y cynllun datblygu sy'n bodoli yn ogystal ag ystyriaethau perthnasol angenrheidiol eraill.

Rhoi caniatâd ar y môr

Ni chaiff y FfDC ei ystyried yn brif sail polisi ar gyfer datblygiadau ar y môr, dim ond y rhai ar y tir. Y bwriad yw mai Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ("CMCC") fydd y brif sail polisi ar gyfer rhoi caniatâd ar y môr.

Y camau nesaf

3.138 Bwriedir i'n cynigion gael eu datblygu i'w defnyddio gan y FfDC a'r CMCC fel y brif sail polisi ar gyfer datblygiadau ar y tir ac ar y môr, yn y drefn honno.

3.139 Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod y FfDC a phroses WIP yn cael eu datblygu a'u bod yn ymgynghori ar egwyddorion ar hyn o bryd. Wrth i fanylion

pellach ddod i'r amlwg, ymgynghorir arnynt fel rhan o ddatganiad y FfDC o gyfranogiad y cyhoedd.

C11	A ydych yn cytuno â'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig categorïau o ddatblygiad ar gyfer trothwyon gorfodol a dewisol. Rhaid penderfynu ar ddatblygiadau arfaethedig a gaiff eu cynnwys yn y trothwyon gorfodol drwy'r broses WIC, ond gellir penderfynu ar y rhai a gaiff eu cynnwys yn y trothwyon dewisol naill ai drwy'r broses WIC, neu ar lefel leol. Fodd bynnag, mater i Weinidogion Cymru benderfynu arno fydd hyn.	

Crynodeb Ystadegol					
Sector	**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**

A	**Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio**	0	3	1	6	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	2	4	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	4	0	0	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	1	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**6**	**10**	**2**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**2**
Cyfanswm y Ganran	**88%**	**12%**

Adolygiad ystadegol

3.140 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 88% â'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig.

3.141 Cytunodd ymatebwyr o'r categorïau ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau.

3.142 Cafwyd ymateb cymysg gan ymatebwyr o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a nododd dau ymatebwr eu bod o blaid y cynnig ac un arall ei fod yn erbyn y cynnig. Yn yr un modd, roedd un ymatebydd o'r categori 'Eraill' o blaid y cynnig ac un yn ei erbyn. Nid ymatebodd y rhai o'r Sector Gwirfoddol i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

3.143 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 11 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig;

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr ddiwygiadau i'r trothwyon arfaethedig a dewisol.

Trosolwg

3.144 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig, ac yn ôl y sylwadau a gafwyd roeddent yn cael eu hystyried yn briodol, cyhyd â'u bod yn glir ac yn ddiamwys.

3.145 Awgrymodd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, ddiwygiadau i'r trothwyon arfaethedig, a oedd yn cynnwys:

- Dylai trothwyon ardal safle gael eu hystyried;
- Cynlluniau solar yn cael eu mesur drwy gyfeirio at eu cynhwysedd allforio AC yn hytrach na'u cynhwysedd DC nominal;
- Trothwy 1MW dewisol ar gyfer cynlluniau hydrodrydanol;
- Yr adran 'newid neu ymestyn' yn cael ei haralleirio lle y bo'n berthnasol i: "Newid neu ymestyn gorsaf gynhyrchu, lle mae'n cynnig cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 10MW o leiaf hyd at derfyn is y Trothwy Gorfodol;
- Cysoni'r trothwy dewisol i'r rhai ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (h.y. diwygio o 1MW-50MW i 10MW-50MW) i sicrhau cysondeb i ddatblygiadau sy'n cwmpasu datblygiadau ar y tir ac ar y môr;
- Dylai'r trothwy gorfodol ar gyfer llinellau trydan uwchben gynnwys 'llinellau cyfnewid' nad ydynt yn adlewyrchu esemptiadau Deddf Trydan 1989 ac a ddatblygir ar hyn o bryd fel NSIPs drwy Ddeddf Cynllunio 2008;
- Defnyddio cynhwysedd cyfartalog trosglwyddiadau yn lle trothwyon cyfaint blynyddol, mewn perthynas â throsglwyddo adnoddau dŵr;
- Dylai Porthladdoedd a Harbyrau nodi cynhwysedd trin posibl o 250,000 o dunelli neu fwy;
- Dylai'r metrig 'deg troedfedd' ar gyfer cynwysyddion ddarllen 'ugain troedfedd' sy'n uned fesur safonol ar gyfer TEU;
- Yn lle "Mwynau Diwydiannol Pwysig yn Strategol ag arwynebedd neu ardal danddaearol o fwy na 150h" rhoi "tynnu a chloddio mwynau" a
- Dylai categori 'purfa' gael ei gynnwys.

3.146 Ategwyd y mwyafrif o'r awgrymiadau gan fawr ddim tystiolaeth i gyfiawnhau newid.

3.147 Gwnaeth ACLl hefyd wneud sylwadau mewn perthynas â chategorïau 3A a 3D o Dabl 4.3 o'r papur ymgynghori mewn perthynas â Phriffyrdd a Phorthladdoedd / Harbyrau, gan fod y trothwyon arfaethedig hyn yn dibynnu ar ddyfarnu p'un a oes "effaith sylweddol ar yr amgylchedd" ac maent yn rhy amwys.

3.148 Nododd ACLl arall fod y diffiniad o olew a nwy anghonfensiynol yn nodi "nad yw'n cynnwys gwneud tyllau turio archwiliol heb ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol o'r fath". Gallai hyn fod yn ddryslyd o ran yr hyn a gaiff ei ystyried ac na chaiff ei ystyried o fewn y diffiniad o 'olew a nwy anghonfensiynol' yn wahanol i ddrilio tyllau turio ar gyfer echdynnu 'confensiynol'.

3.149 Roedd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant am gael eglurder o ran p'un a ydym yn bwriadu i dyllau turio archwiliadol dwfn a Chyfleusterau Gwaredu daearegol gael eu cynnwys fel WIPs.

3.150 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nododd un ymatebydd o'r categori 'Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio' ei fod yn afresymegol cynnwys trothwy gorfodol o 50MW ar gyfer gorsaf gynhyrchu ar y tir newydd ac yna unrhyw achos o newid neu ymestyn gorsaf gynhyrchu bresennol fel WIP dewisol ar yr amod nad oedd cynhwysedd yr orsaf gynhyrchu fel y'i hymestynnwyd yn fwy na 350MW. Dadleuwyd y dylai hyn fod yn WIP gorfodol. Soniodd yr ymatebydd hefyd fod cryn botensial i ragor o bŵer hydro gael ei gynnwys fel rhan o'r gyfundrefn rhoi caniatâd.

C11	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Diwygiadau posibl i drothwyon</u>

Awgrymwyd nifer o drothwyon a nodir ein hymateb isod:

- *Trothwyon ardal safle ar gyfer prosiectau ynni* - Ar y cam hwn, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth sy'n profi bod trothwyon ardal safle yn adlewyrchu'n gywir effeithiau cynllun arfaethedig, y mae angen caniatâd ar ei gyfer ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymchwilio i ffyrdd cywir o ddiffinio'r hyn sy'n gyfystyr â WIP ac yn adolygu'r ffyrdd hynny.
- *Cynlluniau solar yn cael eu mesur drwy AC yn hytrach na DC* - Er mwyn sicrhau dull cyson, mae'n fwy priodol yn ein barn ni i fesur allbwn solar fel y'i nodir yn y trothwyon ymgynghori. Gan fod y trothwy datganoli wedi ei osod ar 350MW, mae angen dull gweithredu cyson rhwng Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch pa awdurdod rhoi caniatâd sy'n gywir. *1MW dewisol ar gyfer cynlluniau hydrodrydanol* - Caiff cynlluniau hydrodrydanol eu cwmpasu fel rhan o drothwyon

arfaethedig yr ymgynghoriad.

- *Yr adran 'newid neu ymestyn' yn cael ei haralleirio lle y bo'n berthnasol i: "Newid neu ymestyn gorsaf gynhyrchu, lle mae'n cynnig cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 10MW o leiaf hyd at derfyn is y Trothwy Gorfodol"* – Gall y geiriad arfaethedig hwn gwmpasu estyniadau ar raddfa fach fel prosiectau WIC gorfodol. Mae'r geiriad a nodir yn y papur ymgynghori yn ddigonol gan nad yw'n debygol o gwmpasu'r datblygiadau hynny lle mae'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig yn ymestyn y tu hwnt i'r trothwy gorfodol o 50MW ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu newydd ond sydd ag effaith gyffredinol fach.
- *Cysoni'r trothwy dewisol i sicrhau cysondeb i ddatblygiadau sy'n cwmpasu datblygiadau ar y tir ac ar y môr* – Er ein bod yn derbyn y rhesymeg y tu ôl i'r awgrym hwn, byddai hyn yn arwain at angen trwydded forol yn unig ar gyfer hyd at 10MW. Nid ein bwriad yw dirprwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau ar gyfer pob cais o dan 10MW i gorff gwahanol ar y cam hwn.
- *Cynnwys llinellau cyfnewid fel rhan o'r trothwy gorfodol ar gyfer llinellau trydan uwchben* – Er mwyn egluro, mae gosod llinell drydan uwchben yn cynnwys llinellau cyfnewid lle nad ydynt wedi'u heithrio o'r gofyniad ar gyfer caniatâd cynllunio.
- *Defnyddio cynhwysedd cyfartalog trosglwyddiadau yn lle trothwyon cyfaint blynyddol ar gyfer trosglwyddo adnoddau dŵr* - Er bod cynhwysedd cyfartalog trosglwyddiadau wedi cael ei ystyried, rydym yn credu bod cyfaint blynyddol arfaethedig ar gyfer trosglwyddo yn ddisgrifydd cywirach o'r raddfa a'r gwaith sy'n ofynnol.
- *Porthladdoedd a harbyrau yn cynnwys cynhwysedd trin posibl o 250,000 o dunelli neu fwy* – Mae'r trothwyon arfaethedig yn cynnwys cynnydd blynyddol o 500,000 o dunelli yn yr adnoddau trin ar gyfer cyfleusterau ar gyfer llongau nwyddau. Rydym yn credu bod hyn yn gymesur mewn perthynas â Chymru.
- *Cynnwys categori 'purfa'* - Nid ydym yn credu bod angen cynnwys categori penodol gan fod ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw'n debygol y caiff purfeydd eraill eu hadeiladu yng Nghymru.
- *Gwaredu daearegol* – Y bwriad yw y bydd y trothwy yn cwmpasu'r gwaith o greu un neu fwy o dyllau turio, a chyflawni unrhyw waith cloddio neu adeiladu cysylltiedig, yn bennaf at ddiben casglu gwybodaeth, data neu samplau er mwyn pennu pa mor addas yw safle ar gyfer y gwaith adeiladu neu ei ddefnyddio fel cyfleuster gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol sy'n fwy na 200 metr o ddyfnder.

<u>Amwysedd disgrifiadau trothwyon</u>

Pan ystyrir bod y categorïau trothwyon sy'n ymwneud â Phriffyrdd a Phorthladdoedd / Harbyrau yn amwys yn eu disgrifiadau a bod angen dyfarnu a fydd hyn yn cael effaith ar yr amgylchedd, diben hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Cydnabyddir bod gwall yn y papur ymgynghori o ran y diffiniad o TEU, a dylai ddarllen 'cyfwerth ag ugain troedfedd'. Ymddiheurwn am y gwall hwn.

Y camau nesaf

3.151 Byddwn yn gwneud y diwygiadau neu'r ychwanegiadau angenrheidiol fel y'u nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru uchod. Gan y bwriedir i'r trothwyon ar gyfer WIPs fod yn hyblyg ac ymatebol, byddwn yn parhau i adolygu'r trothwyon hyn wrth i dystiolaeth newydd ddod i law.

C12	**A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar yr angen am ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal glannau Cymru? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dileu'r angen am ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal glannau Cymru, ac yn lle hynny, roi'r caniatâd hwn yn y broses WIC unedig.	

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynlluniau	1	3	1	5	9
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	0	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	1	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	0	1	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	1	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**9**	**5**	**4**	**28**	**45**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**14**	**4**
Cyfanswm y Ganran	**77%**	**23%**

Adolygiad ystadegol

3.152 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 77% â'r cynnig i gael gwared ar yr angen am

ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal glannau Cymru.

3.153 Cefnogodd ACLlau y cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau ac roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r categorïau Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ac Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall hefyd yn cytuno â hyn, er nad oedd lleiafrif o blith y grwpiau o blaid hyn. Gwnaeth y rhai o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant hefyd ymateb yn negyddol.

3.154 Cafwyd ymateb cymysg o'r categori 'Eraill' a nododd un ymatebydd ei fod o blaid y cynnig, ond roedd yr ymatebydd arall yn y categori hwn yn anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.155 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 12 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i ddileu'r angen am ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal glannau Cymru;

- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach a manwl i effeithiau dileu'r angen am ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989.

Trosolwg

3.156 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig a nodwyd yn y papur ymgynghori, a soniodd ACLlau yn benodol fod y system rhoi caniatâd arfaethedig yn system ddigonol ar gyfer Deddf Trydan 1989. Ategwyd hyn gan ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant ac ymatebydd o'r categori Busnes.

3.157 Fodd bynnag, cyflwynwyd nifer o ymatebion cefnogol gyda chafeatau yn gofyn am ragor o wybodaeth fanwl. Er enghraifft, roedd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio o blaid y cynnig, yn amodol ar ystyriaeth fanwl o'r materion cysylltiedig yr ymgymerir â hwy fel rhan o ymgynghoriad pellach.

3.158 Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd o'r categori Asiantaeth yr Amgylchedd / Corff Sector Cyhoeddus arall bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i ddileu'r angen am ganiatadau Deddf Trydan 1989 wrth drin a sefydlu parthau diogelwch mordwyo.

3.159 Nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, er ei fod yn cefnogi'r cynnig, fod yn rhaid bod datblygwyr yn gallu delio â seilwaith ar y tir (h.y. cysylltiadau grid, trawsyriadau ac ati) ar yr un pryd, heb brosesau ychwanegol sy'n ymwneud ag elfennau ar y môr cynllun.

3.160 Nododd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, er ei fod yn cytuno y bydd Trwydded Forol yn sicrhau y caiff pob ystyriaeth sylweddol berthnasol ei hystyried, y dylid ystyried ymhellach a ddylid addasu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir er mwyn sicrhau y gall trwydded forol a

roddir fel y cynigir yn ardal glannau Cymru awdurdodi ymyrraeth ddilyniadol â hawliau mordwyo.

3.161 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un o'r categori Busnes fod Deddf Trydan 1989 yn cynnwys dyletswyddau amgylcheddol sydd wedi cael eu hystyried yn bwysig erioed ac na fyddent mwyach yn gymwys. At hynny, roedd yn gam rhy bell yn eu barn nhw i ddileu Deddf Trydan 1989 heb roi ystyriaeth lawn i'r materion.

C12	Ymateb Llywodraeth Cymru

Dileu Deddf Trydan 1989

Wrth ddileu Deddf Trydan 1989 yn ardal glannau Cymru, cynigir o hyd y dylid cadw'r gallu i sefydlu parthau diogelwch a'r gallu i ymyrryd gyda hawliau mordwyo cyhoeddus. At hynny, cynigir rhoi ystyriaeth amgylcheddol gadarn drwy broses gyfnewid WIC. Nid yw bwriad yw colli unrhyw hyblygrwydd na phwerau eraill o dan Ddeddf Trydan 1989 fel rhan o broses WIC.

Byddwn yn parhau i wneud gwaith dadansoddi deddfwriaethol manwl er mwyn sicrhau na chollir unrhyw bwerau.

Diwygiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

Mae diwygiadau o'r fath y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Y camau nesaf

3.162 Y bwriad yw datblygu ein cynigion i ddisodli Deddf Trydan 1989 â phroses WIC yn ardal glannau Cymru. Er mai felly y mae, byddwn yn sicrhau na chollir unrhyw hyblygrwydd na phwerau o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol hwn.

C13	**A ydych yn cytuno â'n cynigion i Ganiatâd Seilwaith yng Nghymru naill ai fod ar ffurf caniatâd safonedig neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y math o gais a wneir? Os nad ydych, pam?**

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai WIC fod ar ffurf caniatadau safonedig i gynnig rhywbeth sy'n gyfarwydd i gymunedau ac awdurdodau sy'n gorfod cyflawni amodau. Fodd bynnag, lle bo angen offeryn statudol, darperir hyn yn lle hynny. Cynigir y bydd deddfwriaeth yn nodi'r amgylchiadau lle y bydd yn rhaid rhoi caniatâd statudol.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw /Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	3	0	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	2	3	0	5	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	1	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	1	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**6**	**10**	**2**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**2**
Cyfanswm y Ganran	**88%**	**12%**

Adolygiad ystadegol

3.163 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 88% â'r cynnig i WIC fod ar ffurf caniatâd safonedig neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y math o gais a wneir.

3.164 Cytunodd pob ymatebydd o'r categorïau Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, ACLlau, Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant a Chyrff Sector Cyhoeddus oll â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Yr unig wrthwynebiadau a gafwyd oedd rhai gan ymatebwyr o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a'r categori 'Eraill' lle cofnodwyd un gwrthwynebiad gan bob un o'r categorïau hyn.

Themâu allweddol

3.165 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 13 fel a ganlyn:

- Dylai cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig ar gyfer WIC fod ar ffurf caniatâd safonedig neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y math o gais a safonedig neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y math o gais a wneir;

- Mae angen eglurhad pellach ar agweddau megis ffurf a chynnwys y caniatadau safonedig a'r offerynnau statudol.

Trosolwg

3.166 Yn gyffredinol, cytunodd ymatebwyr â'r cynnig gan awgrymu ei fod yn ychwanegu sicrwydd, cymesuredd a hyblygrwydd i ddatblygwyr ac yn cydnabod y cymhlethdodau gwahanol a gofynion rhoi caniatâd ar gyfer prosiect seilwaith.

3.167 Roedd nifer o ymatebion yn canolbwyntio ar gael eglurhad pellach ar amrywiaeth o faterion, er eu bod yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor. Er enghraifft, gofynnodd un ACLl am eglurhad pellach ar bwy fyddai'r awdurdod cyfrifol am gyflawni amodau fel rhan o'r broses WIC gan nad oedd yn ystyried ei fod yn briodol i ACLlau gyflawni amodau os oedd awdurdod rhoi caniatâd arall mewn sefyllfa well i wneud hynny.

3.168 Yn yr un modd, ceisiodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant eglurhad pellach ar gostau drafftio a'r amser a gymerir i lunio penderfyniad ar gyfer caniatâd safonedig ac offeryn statudol, ac roedd ymatebydd arall o'r grŵp hwn hefyd am gael gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â phryd y byddai caniatâd safonedig neu offeryn statudol yn gymwys. Myfyriodd ACLL ar y sylwadau hyn.

3.169 Awgrymodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r modd y caiff caniatadau eilaidd eu cyflawni a'u gorfodi, gan nodi y dylent, cyhyd ag sy'n bosibl, fod yn unffurf o ran strwythur, cynnwys ac effaith gyfreithiol. Ar thema debyg, nododd ymatebydd o'r categori Corff Sector gwirfoddol y dylid cynnwys rhai darpariaethau amddiffynnol fel rhan o WIC.

3.170 Cytunodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio â'r cynnig gan ymateb drwy argymell, cyhyd ag sy'n bosibl, fod ffurf y caniatâd a'r amodau yn aros yn ddigyfnewid, p'un a'u rhoddir drwy ganiatâd safonol neu drwy offeryn statudol.

3.171 Fel arall, awgrymodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant, ar gyfer agweddau Gorchymyn Prynu Gorfodol ar offerynnau statudol a chaniatadau safonedig, y bydd angen teilwra'r union bwerau a geisir i brosiect bob amser ac felly, na fyddai'n bosibl gael set safonedig o bwerau ar gyfer yr holl offerynnau statudol a'r caniatadau safonedig.

3.172 Nododd un ACLl, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, y dylid rhoi ystyriaeth i ganiatadau ond yn cael eu rhoi drwy offerynnau statudol gan y byddai hyn yn gyson â phrosiectau mawr eraill o bwysigrwydd cenedlaethol ac a fyddai ar yr un sail, yn gyfreithiol.

3.173 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, dywedodd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus yng nghyd-destun caniatadau safonedig, y gall y cynnig fod yn rhy gymhleth i'w gyflawni ar gyfer WICs sydd â thrwyddedau tybiedig ac y dylid darparu eglurhad pellach.

3.174 At hynny, cyflwynwyd sylwadau a oedd yn anghytuno â'r cynnig, gan awgrymu nad oes unrhyw fudd i gyhoeddi offeryn statudol ar gyfer cynlluniau dewisol ac am nad oedd y cynnig wedi ei egluro'n ddigon manwl i egluro pam roedd offeryn statudol yn briodol.

C13	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Ffurf ar ganiatadau a'u cynnwys</u>

Ar hyn o bryd, argymhellir sefydlu dull aml-gorff i gyflawni amodau, gyda'r caniatâd yn nodi pwy fydd yr awdurdod cyflawni ar gyfer pob amod neu grŵp o amodau.

Gan ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng cyhoeddi caniatâd confensiynol neu Offeryn Statudol, nid ydym o'r farn y bydd y gwahaniaeth hwn yn newid cryfder unrhyw bwerau at ddibenion gorfodi. Rhaid cadarnhau'r gwahaniaeth hwn gan y gellir ymyrryd â rhai hawliau gyda chanlyniad y dull siop un stop, na ellir ei newid ond drwy Offeryn Statudol.

<u>Dileu caniatadau safonedig</u>

Er y byddai ond cyflwyno offerynnau statudol fel ffordd o roi caniatâ, yn debyg i'r dull a fabwysiedir gan broses DCO, yn hyrwyddo cysondeb, nid yw'n cynnig yr hyblygrwydd sy'n bwysig yn ein barn ni wrth ddarparu cyfundrefn rhoi caniatâd unedig, lle nad yw offeryn statudol efallai yn briodol, neu lle y'i hystyrir yn ormodol ar gyfer rhai prosiectau rhoi caniatâd. Ystyrir bod caniatâd mwy confensiynol yn fwy cymesur mewn

achosion o'r fath.

Y camau nesaf

3.175 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynigion mewn perthynas â chyhoeddi caniatâd safonol neu gonfensiynol ar gyfer prosiectau llai cymhleth, gan ein bod yn credu bod hyn yn ddull cymesur sy'n cyd-fynd â'r hyblygrwydd rydym yn anelu at ei gynnig fel rhan o broses WIC.

C14	A ydych yn cytuno â'r syniad o roi rhai dosbarthiadau penodol o ddatblygiadau ar y llwybr carlam? Os ydych, nodwch ble y gall hyn fod yn addas.
Mae'r ymgynghoriad yn ymchwilio i ffyrdd o ychwanegu elfennau llwybr carlam ar gyfer rhai dosbarthiadau neu fathau o WIP er mwyn sicrhau proses gwneud penderfyniadau fwy cymesur (h.y. lle yr ystyrir bod ceisiadau yn anghonfensiynol ac nad ydynt yn arwain at wrthwynebiadau).	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw/Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Cynllunio /Busnes	1	5	0	4	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	1	5	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	3	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	3	0	6	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	1	1	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**4**	**13**	**5**	**24**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**17**	**5**
Cyfanswm y Ganran	**77%**	**23%**

Adolygiad ystadegol

3.176 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 77% â'r cynnig i gyflwyno elfennau llwybr carlam ar gyfer rhai dosbarthiadau neu fathau o WIP er mwyn sicrhau proses gwneud penderfyniadau fwy cymesur.

3.177 Cytunodd pob ymatebydd o'r categorïau Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, ACLlau, Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant a Chyrff Sector Cyhoeddus â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Anghytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall â'r cynnig, ac anghytunodd hefyd yr unig un a ymatebodd o'r categori Corff Sector Gwirfoddol hefyd.

3.178 Roedd yr ymatebion o'r categori 'Eraill' yn gymwys ac roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynnig ac un yn anghytuno.

Themâu allweddol

3.179 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 14 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i roi rhai dosbarthiadau penodol o ddatblygiadau ar y llwybr carlam;

- Mae angen ystyried cysyniad llwybr carlam ymhellach.

Trosolwg

3.180 Roedd ACLlau o blaid y cynnig ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan ymatebwyr yn y categori hwn. Dim ond un ACLl a ddywedodd, lle mae angen un caniatâd, ac mae'r datblygiad ar ben isaf unrhyw raddfa o ran trothwy. Gall fod yn werth ymchwilio i'r defnydd o lwybr carlam lle mae'n glir o gamau cychwynnol y broses fod cynnig, beth bynnag fo'i maint, yn anghonfensiynol.

3.181 Yn yr un modd, nododd ACLl arall anomaledd yn y ddeddfwriaeth o ran Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol lle yr honnir bod methiant wedi bod i ystyried amgylchiadau lle y rhoddwyd caniatâd ond bod datblygwyr wedi methu â chydymffurfio ag amodau cyn ymgeisio, gan ei gwneud yn ofynnol i gais newydd o dan a73A gael ei wneud. Nodwyd bod hwn yn un o'r amgylchiadau lle y gellid cymhwyso dull llwybr carlam.

3.182 Derbyniwyd sylwadau pellach gan ACLlau, ac er eu bod yn cytuno ag egwyddor y cynnig, cwestiynwyd pa fath o ddatblygiad seilwaith a fyddai'n gwarantu dull llwybr carlam gan fod y mathau hyn o ddatblygiad ar raddfa

fawr ac o bwys cenedlaethol i Gymru ac felly, nad ydynt yn debygol o fod yn anghonfensiynol.

3.183 Roedd ymatebwyr o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd o blaid y cynnig mewn egwyddor gan nodi y byddai cyfundrefn ystwyth yn helpu i ddarparu proses gwneud penderfyniadau fwy cymesur.

3.184 Fodd bynnag, cododd rhai ymatebwyr o'r categori hwn rai amheuon. Er enghraifft, nododd un ymatebydd ei fod yn credu y byddai'n anodd nodi dosbarthiadau penodol o ddatblygiad sy'n addas ar gyfer dull llwybr carlam yn yr ystyr gyffredinol. At hynny, nododd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, er ei fod yn teimlo y dylid dyfarnu dull llwybr carlam ar sail achosion unigol yn amodol ar feini prawf penodol sy'n canolbwyntio ar gymhlethdod a maint yr effaith ar y datblygiad arfaethedig.

3.185 Nododd sylwadau ychwanegol a gafwyd gan ymatebwyr nad yw'r cysyniad o lwybr carlam yn ddigon datblygedig a manwl yn y papur ymgynghori, y dylai dosbarthiadau o ddatblygiadau gael eu hadolygu'n rheolaidd ac na ddylai fod yn bosibl defnyddio dull llwybr carlam ar gyfer achosion lle y ceisir pwerau gorfodol.

3.186 Nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ei fod yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor, ar yr amod nad effeithir yn andwyol ar yr asesiad technegol o'r effeithiau nac ansawdd y cais; nid effeithir ar dryloywder nac atebolrwydd. At hynny, ni ddylai dull llwybr carlam gael ei ddefnyddio i osgoi'r asesiadau angenrheidiol a'r broses o graffu ar gais.

3.187 Ni chytunodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio â'r cynnig ac nid anghytunodd ag ef ychwaith. Fodd bynnag, awgrymodd, er mwyn ystyried dull llwybr carlam, y dylai fod proses ar waith ar gyfer galluogi rhanddeiliaid i wneud sylwadau ar y cynnig cyn bod Gweinidogion Cymru yn mynd ati i archwilio.

3.188 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, awgrymodd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth /Corff Sector Cyhoeddus fod y cynnig yn ymddangos fel petai'n gwrthdaro â'r egwyddor o gael trothwyon dewisol ac y dylid cymryd gofal i sicrhau nad amserlenni yw'r ffactor pennaf yn y broses ymgynghori.

3.189 Anghytunodd cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol â'r cynnig gan nodi pryderon y byddai unrhyw gais lle y defnyddir dull llwybr carlam yn destun llai o ofynion ymgynghori. Codwyd hyn gan ACLl hefyd, er ei fod yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor.

3.190 Nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio na ddylid ystyried dull llwybr carlam gan y dylid ymdrin â phob cais mor gyflym â phosibl.

C14 Ymateb Llywodraeth Cymru

Yr egwyddor o roi ceisiadau ar y llwybr carlam

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos awydd clir i roi rhai cynigion o ran seilwaith ar y llwybr carlam lle mae amgylchiadau'n caniatáu hynny.

Rydym yn cydnabod ac yn deall bod y diffyg manylion yn y papur ymgynghori wedi ei gwneud yn anodd i ymatebwyr roi sylwadau ar y mater penodol hwn a byddwn yn ceisio cyhoeddi dogfen ymgynghori arall a fydd yn cynnwys mwy o fanylion am sut rydym yn rhagweld y caiff ceisiadau eu rhoi ar y llwybr carlam yn ymarferol ac o dan ba amgylchiadau y bydd hyn yn digwydd.

Ceisiadau adran 73a

Nodwyd anomaledd gan un ymatebydd yn ymwneud â cheisiadau adran 73A o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gan fod ceisiadau o'r fath yn gallu amrywio o ran maint a chymhlethdod, efallai na fydd yn briodol defnyddio dull llwybr carlam.

Y camau nesaf

3.191 Rydym yn bwriadu datblygu ein cynigion i gyflwyno'r gallu i geisiadau gael eu rhoi ar y llwybr carlam drwy'r broses benderfynu, lle caiff rhai meini prawf eu bodloni, er enghraifft os na wneir unrhyw wrthwynebiadau, neu lle mae ceisiadau o allu cyfyngedig. Bydd mwy o fanylion am y broses o roi ceisiadau ar y llwybr carlam yn gyffredinol ac o dan ba amgylchiadau penodol y bydd hyn yn digwydd yn destun ymgynghoriad pellach.

C15	**A ydych yn cytuno â'n cynigion i ddatgymhwyso'r angen am rai awdurdodiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r prif ddatblygiad? Os ydych, nodwch pa awdurdodiadau y gellir eu cynnwys mewn Caniatâd Seilwaith yng Nghymru.**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig rhoi'r opsiwn i hyrwyddwyr cynlluniau grynhoi'r caniatadau eilaidd gwahanol sy'n ofynnol i weithredu cynllun yn un prif caniatâd (e.e. trwyddedau morol, caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig a thrwyddedau amgylcheddol).	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Cynllunio /Busnes	1	2	1	6	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	3	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	3	1	0	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	1	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	1	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**7**	**8**	**3**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**83%**	**17%**

Adolygiad ystadegol

3.192 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 83% â'r cynnig i ddatgymhwyso'r angen am awdurdodiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r prif ddatblygiad.

3.193 Roedd ymatebwyr o'r categorïau ACLlau ac Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall yn cytuno â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd ymatebion o'r categorïau Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn gymwys, er bod y mwyafrif o blaid y cynnig, gydag un gwrthwynebiad. Yn yr un modd, roedd ymatebion y rhai o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r rhai o'r categori 'Eraill' yn wahanol hefyd ac roedd un ymatebydd yn cytuno ac un yn anghytuno o bob un o'r grwpiau hyn. Nid ymatebodd y rhai o'r Sector Gwirfoddol.

Themâu allweddol

3.194 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 15 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i ddatgymhwyso'r angen am rai awdurdodiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r prif ddatblygiad;

- Mae angen gwybodaeth bellach i asesu'n feirniadol effaith datgymhwyso, neu dybio rhai caniatadau fel rhan o gyfundrefn rhoi caniatâd unedig.

Trosolwg

3.195 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig a nodwyd yn y papur ymgynghori. Fodd bynnag, roedd consensws ymhlith ymatebwyr a awgrymodd y dylid ymgynghori ymhellach ar y pwnc a'i ddatblygu ymhellach.

3.196 Cytunodd un ACLl â'r cynnig mewn egwyddor, er i bryderon cael eu codi bod gan rai o'r awdurdodiadau a restrir yn y papur ymgynghori eu proses ymgynghori, craffu ac apelio eu hunain ac os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud pob penderfyniad, mae pryder y collir atebolrwydd a gwybodaeth leol, ynghyd ag unrhyw fath o broses apelio.

3.197 Roedd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall o blaid y cynnig mewn egwyddor. Fodd bynnag, teimlwyd bod y potensial i ddatgymhwyso neu dybio caniatadau yn galw am roi ystyriaeth bellach a gofalus i hyn er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol. Nodwyd, er bod rhywfaint o orgyffwrdd â rhai caniatadau megis y gyfundrefn drwyddedu forol, dylid cydnabod nad yw cynllunio defnydd tir na rheoli llygredd wedi'u cynllunio at yr un diben a bod ganddynt nodweddion gwahanol. Awgrymodd yr ymatebydd y byddai cynigion manylach yn fuddiol i

bennu effaith datgymhwyso neu dybio rhai caniatadau fel rhan o'r broses WIC.

3.198 Awgrymodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylid rhoi ystyriaeth i dystysgrifau o dan adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a darpariaethau tebyg yn ardystio digonolrwydd y tir i'w roi yn gyfnewid am dir agored yn cael ei gaffael ar gyfer ei ddatblygu.

3.199 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant gyfeiriad yn y papur ymgynghori at gymeradwyo cysylltiadau newydd â charthffosydd cyhoeddus ac anghytunodd â'r cynnig yn seiliedig ar ddiffyg gwybodaeth am y pwnc hwn ac mae penderfyniadau ar gysylltiadau â'r math hwn o seilwaith wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn y darpariaethau a nodir yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991.

3.200 Anghytunodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd â'r cynnig yn rhannol, gan gredu y byddai'n well i'r caniatâd cynllunio gael ei dybio, yn hytrach na'i ddatgymhwyso. Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd yn cefnogi'r cam i ddatgymhwyso awdurdodiadau eraill.

3.201 Cwestiynodd Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, p'un a oedd angen cynnwys y pwerau sy'n ymwneud â ffyrddfreintiau angenrheidiol, caffaeliad gorfodol a phwerau coed mewn cysylltiad â llinellau uwchben yn y gyfundrefn newydd gan eu bod eisoes yn destun cyfundrefn ar wahân.

3.202 Derbyniwyd un ymateb nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

C15	Ymateb Llywodraeth Cymru

<u>Gwybodaeth ac atebolrwydd lleol</u>

Deallwn bwysigrwydd cadw gwybodaeth a mewnbwn lleol wrth benderfynu ar geisiadau yr ystyrir eu bod o bwys cenedlaethol. Fel rhan o'r gyfundrefn rhoi caniatâd unedig arfaethedig, rydym wedi amlinellu cynigion ar gyfer mewnbwn ACLl ar ffurf Adroddiadau Effaith Leol, yn ogystal â rhoi'r un cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref wneud hynny os dymunant. O ran apelio yn erbyn penderfyniadau, nid ydym yn bwriadu cyflwyno proses apelio; fodd bynnag, byddai cyfle i herio penderfyniadau drwy gyfrwng Adolygiad Barnwrol.

<u>Y rhestr o ganiatadau</u>

Gwneir ymchwil fanwl gan Lywodraeth Cymru i gwmpas a natur caniatadau eilaidd ymhellach a fydd yn ffurfio rhan o'r broses WIC. Wrth i brosesau WIC gael eu datblygu ymhellach, bwriedir cynnal ymgynghoriad manwl ar y rhestr arfaethedig hon.

Tybio neu ddatgymhwyso caniatadau

Rydym yn cydnabod yr opsiwn o dybio rhai caniatadau yn hytrach na'u datgymhwyso. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd gan nifer o ymatebwyr, rhaid i'r cynigion manwl ac effeithiau posibl hyn gael eu hystyried yn fanylach ac fe gânt eu hystyried ymhellach a byddant yn destun ymchwil bellach ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Bydd y gallu naill ai i dybio neu ddatgymhwyso awdurdodiad yn cael ei wneud ar sail gyfreithiol yn bennaf.

Tegwch gweithdrefnol

Nid y bwriad yw colli unrhyw degwch gweithdrefnol wrth ymgorffori caniatadau eilaidd yn y broses WIC, a'r bwriad yw y bydd gan gyfranogwyr i'r broses WIC y gallu i wneud sylwadau mewn perthynas â chaniatadau eilaidd a dylanwadu arnynt, lle y bo'n bosibl.

Y camau nesaf

3.203 Rydym yn bwriadu datblygu ein cynnig i ddatgymhwyso neu dybio rhai caniatadau fel rhan o'r broses WIC ac yn y bôn mae hyn yn ategu cyfundrefn rhoi caniatâd unedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ac yn erbyn bod angen ystyried hyn yn barhaus a thrafod â rhanddeiliaid.

C16	**A ydych yn cytuno y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau fod yn sail polisi ar gyfer penderfynu p'un a ddylai Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol fynd rhagddynt ai peidio? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel y sail polisi sylfaenol ar gyfer WICs gan mai bwriad y ddau gynllun yw nodi ble fydd y datblygiadau yng Nghymru ac yn ei dyfroedd. Gwnaeth yr ymgynghoriad hefyd gynnig y defnydd o ddatganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau i ategu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, mewn ffordd debyg i Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	1	3	0	6	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	1	5	2	2	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	1	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**5**	**11**	**4**	**26**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**4**
Cyfanswm y Ganran	**80%**	**20%**

Adolygiad ystadegol

3.204 Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn, fodd bynnag, o'r rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 80% â'r cynnig y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau fod yn sail polisi ar gyfer penderfynu p'un a ddylai WIPs fynd rhagddynt ai peidio.

3.205 Ymatebodd rhai o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant yn gadarnhaol i'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd yr ymatebwyr o'r categori ACLlau ac Asiantaeth Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Arall yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd nifer fach o blith y grwpiau hyn yn cytuno â'r cynnig.

3.206 Cafwyd ymateb cymysg o'r categori 'Eraill' a nododd un ymatebydd ei fod o blaid y cynnig, ond roedd yr ymatebydd arall yn y categori hwn yn anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.207 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 16 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau fod yn sail polisi ar gyfer penderfynu p'un a ddylai WIPs fynd rhagddynt ai peidio;

- Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i rôl cynlluniau lleol;

- Byddai rhagor o fanylion am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn fuddiol i wneud sylwadau mwy hyddysg.

Trosolwg

3.208 Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr â'r cynnig a nodwyd yn y papur ymgynghori, er i nifer o sylwadau awgrymu y byddai gwybodaeth bellach a rhagor o fanylion am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a rôl cynlluniau lleol yn fuddiol.

3.209 Cytunodd un ACLl â'r cynnig mewn egwyddor, er i un awgrymu y bydd yn dibynnu ar gynnwys fersiynau terfynol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac a ydynt yn ddigon manwl i fod yn sail polisi ar gyfer WIPs.

3.210 Roedd ACLl arall yn cytuno hefyd. Fodd bynnag, nododd y dylid rhoi pwyslais ar ddogfennau polisi sy'n seiliedig ar bynciau neu benodau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a ddylai arwain at fethodoleg gliriach ar gyfer asesu prosiectau arfaethedig.

3.211 Cafwyd sylw pellach gan ACLl yn nodi y dylid egluro mai'r FfDC fydd y brif ddogfen ar gyfer gwneud penderfyniadau WIPs ac y dylai'r llinellau amser ar gyfer mabwysiadu cyfundrefnau'r FfDC a WIP gyd-fynd â'i gilydd.

3.212 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un o'r categori Busnes fod angen cyswllt cryfach rhwng llunio polisïau a gwneud penderfyniadau na'r hyn a nodwyd yn y papur ymgynghori.

3.213 Awgrymodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, er bod fframwaith polisi cryf yn ddefnyddiol, y bydd yn aneffeithiol oni chydlynir deddfwriaeth berthnasol. Awgrymwyd bod y system gynllunio a'r systemau diogelu amgylcheddol yn mynd yn groes i'w gilydd ac nad ydynt yn ddigon eglur.

3.214 Cododd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio bryderon ynghylch cyflwyno datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau, gan awgrymu mai'r cyfan y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud fyddai ailddyfeisio'r olwyn ac y byddai mabwysiadu neu addasu Datganiadau Polisi Cenedlaethol presennol yn ateb mwy cost-effeithiol. Codwyd y pryder hwn hefyd gan ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a awgrymodd y dylai'r FfDC a'r CMCC gael eu diweddaru yn lle hynny.

3.215 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nododd un ACLl ei fod yn methu ag ystyried sefyllfaoedd lle mae cynigion seilwaith yn croesi'r ffin i Loegr ac awgrymodd bod yn rhaid i gyfundrefn rhoi caniatâd unedig ar gyfer Cymru hefyd ystyried y polisi perthnasol yn Lloegr (h.y. Datganiadau Polisi Cenedlaethol, cynlluniau lleol ac ati) lle y gallai effeithiau posibl datblygiadau effeithio ar gymunedau lleol yn Lloegr sydd agosaf at y ffin.

3.216 Awgrymodd ACLl arall a oedd yn anghytuno â'r cynnig nad yw'n ddigon i ddibynnu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn unig gan y byddant yn gyffredinol iawn o ran eu hamcanion a'u cynigion ac y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

3.217 Rhannwyd y farn hon hefyd gan ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall a ddywedodd fod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn annhebygol o fod yn ddigon rhagnodol i fod yn rhagfynegydd da ar gyfer llwyddiant cais. Gofynnodd yr ymatebydd hefyd am eglurder ynghylch p'un a fyddai Datganiadau Polisi Cenedlaethol y DU yn gymwys i'r gyfundrefn rhoi caniatâd newydd, unedig.

3.218 Er eu bod yn cytuno â'r cynnig yn gyffredinol, soniodd nifer o ymatebwyr, yn enwedig ACLlau, am bwysigrwydd rhoi ystyriaeth i gynlluniau lleol yn ogystal â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

3.219 Cafwyd sylwadau tebyg mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig , ond yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth yn fuddiol. Nododd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant y diffyg eglurder ynghylch rôl y FfDC a sut y bydd yn gweithio ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru. Mynegwyd yr un farn hefyd gan ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a oedd am gael eglurhad pellach ynglŷn â'r hierarchaeth a'r drefn blaenoriaeth ar gyfer dogfennau polisi perthnasol.

C16	Ymateb Llywodraeth Cymru

FfDC a CMCC

Rydym yn cydnabod nad yw'r FfDC na'r CMCC wedi cael eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru a'u bod ar y cam datblygu o hyd, ynghyd â'r broses WIP. Er mai felly y mae, mae gan y dogfennau hyn amcanion clir fel dogfennau sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn briodol at y diben hwn.

Awgrymwyd nad yw'r FfDC na'r CMCC yn ddigon manwl nac yn ddigon rhagnodol i gynnig y sail polisi sy'n ofynnol ar gyfer y gyfundrefn WIP. Rydym yn bwriadu cyflwyno datganiadau polisi ychwanegol sy'n seiliedig ar bynciau, lle y bo angen. Y datganiadau polisi seiliedig ar bynciau hyn fydd y brif ystyriaeth ar gyfer meysydd nad yw'r FfDC na'r CMCC yn eu cwmpasu.

Rydym yn cydweithio'n agos â chydweithwyr er mwyn sicrhau bod cyfundrefn rhoi caniatâd seilwaith arfaethedig yn cyd-fynd â chanlyniadau'r adolygiad o gyfraith cynllunio yng Nghymru.

Cysylltiadau cryfach rhwng polisi a deddfwriaeth

Rydym yn deall yr angen am gysylltiadau cryf rhwng llunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Cyflawnir hyn drwy gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cyfundrefn rhoi caniatâd unedig a fydd yn darparu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer sut y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yn ogystal â chyswllt uniongyrchol rhwng llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

Materion trawsffiniol

Rydym wedi ystyried y bydd y datblygiadau arfaethedig yn creu problemau trawsffiniol o bosibl rhwng Cymru a Lloegr a sut y gall hyn effeithio ar gynigion hysbysu ac ymgynghori; fodd bynnag, dim ond ar gyfer datblygiadau arfaethedig, neu rannau o ddatblygiadau, y gallwn ddeddfu, o fewn ffiniau Cymru. O ran sut y bydd hyn yn effeithio ar ofynion hysbysu ac ymgynghori, byddwn yn nodi arfer gorau mewn canllawiau a fydd yn awgrymu bod datblygwyr yn hysbysu pob ACLl perthnasol a chymuned y bydd cynnig yn effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai yn Lloegr. Fodd

bynnag, lle y bydd rhan o ddatblygiad arfaethedig yn dod o fewn Lloegr ac a gaiff ei benderfynu wedyn yn ôl gofynion deddfwriaethol ar sail Lloegr yn unig, byddai rhai gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu wedi'u hanelu at ACLlau perthnasol a chymunedau lleol eisoes yn gymwys.

Mabwysiadu Datganiadau Polisi Cenedlaethol

Caiff Datganiadau Polisi Cenedlaethol eu llunio gan Lywodraeth y DU ar gyfer penderfyniadau gan Lywodraeth y DU. Nid ydynt yn gymwys i benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru, gan nad ydynt yn adlewyrchu polisi Cymru.

Y camau nesaf

3.220 Cynigir y dylid parhau â'n cynigion i ddefnyddio'r FfDC a'r CMCC fel y sail polisi ar gyfer rhoi caniatâd ar y tir ac ar y môr, yn seiliedig ar y sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y dogfennau hyn yn ddigonol at ddiben gwneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn cynnig ategu'r polisi hwn â datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau, lle y bo angen. Bydd datganiadau o'r fath yn destun proses ymgynghori eu hunain.

C17	**A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch defnyddio ymgyngoriadau cyn ymgeisio yn sail i broses rhoi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig rhoi pwyslais ar gamau rhagarweiniol y broses rhoi caniatâd ac yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gan ei bod yn hanfodol bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ddatblygiadau arfaethedig sy'n effeithio arnynt.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	3	1	4	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	2	4	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	4	0	0	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	1	0	1	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	1	1	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**10**	**8**	**3**	**25**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**18**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**85%**	**15%**

Adolygiad ystadegol

3.221 Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn, fodd bynnag, o'r rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 85% â'r cynnig i gyflwyno gofynion ymgynghori cyn ymgeisio er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ddatblygiadau arfaethedig sy'n effeithio arnynt.

3.222 Cytunodd ACLlau ac ymatebwyr o Asiantaeth Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill a rhai o'r categori 'Eraill' â'r cynnig hwn, heb unrhyw wrthwynebiadau.

3.223 Cafwyd ymateb cymysg gan ymatebwyr o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, ond anghytunodd yr unig ymatebydd o'r categori Sector Gwirfoddol â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.224 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 17 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio fel y sail i broses rhoi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru;
- Mae angen mwy o wybodaeth ar agweddau penodol ar y broses ymgynghori cyn ymgeisio, gan gynnwys ffioedd a materion trawsffiniol;
- Rhai i unrhyw ofynion a bennir fel rhan o broses ymgynghori cyn ymgeisio fod yn ystyrlon.

Trosolwg

3.225 Yn gyffredinol, cytunodd ymatebwyr â'r cynnig, gan awgrymu y bydd yn arwain at arbedion o ran amser a chostau i bawb dan sylw, y bydd ganddo ddiben pendant a chlir ac y bydd yn helpu i sicrhau y gall ceisiadau ddatblygu mewn ffordd amserol, a fydd yn cynnwys mewnbwn ystyrlon gan gymunedau lleol ac ymgyngoreion statudol. Fodd bynnag, rhaid iddo fod yn ystyrlon.

3.226 Roedd nifer o ymatebwyr o blaid y cynnig mewn egwyddor, er i sawl pwynt gael ei godi mewn perthynas â'r ffordd y bydd unrhyw ofynion ymgynghori cyn ymgeisio yn gweithredu yn ymarferol.

3.227 Nododd ACLl y bydd yn rhaid cynnwys ACLlau cyfagos sy'n croesi ffiniau a chymunedau lleol y tu allan i Gymru yn yr ymgyngoreion ar gyfer cynlluniau yn agos at ardaloedd trawsffiniol yn Lloegr neu yn yr ardaloedd hynny yr effeithir arnynt ac mae'n bwysig sicrhau bod y ddeddfwriaeth a/neu'r canllawiau canlyniadol yn ddigon cadarn i sicrhau bod hyn yn digwydd.

3.228 Roedd dau ACLL am i ffioedd gael eu hegluro'n well, gan nodi y byddai'n anodd pennu ffi benodol ar sail adennill costau llawn ar gyfer pob achos gan y byddai costau yn amrywio'n sylweddol rhwng achosion a byddai gwybodaeth bellach yn ymwneud â ffioedd yn cael ei chroesawu.

3.229 Awgrymwyd hefyd y dylai ACLl, ymgysylltu cyn ymgeisio ag ACLlau perthnasol fod yn ofyniad gorfodol i ddatblygwyr.

3.230 Cyfeiriodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant at y cynnig gan nodi'r farn y dylai ymgysylltu cyn ymgeisio sefydlu tir cyffredin cyn cyflwyno, sicrhau y cymhwysir manwl gywirdeb at asesiadau ar y cyd a galluogi cyfleoedd i drafod a phrofi tystiolaeth hynod dechnegol.

3.231 Ni wnaeth ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad yn amlinellu p'un a oedd yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Fodd bynnag, darparwyd sylwadau ganddo mewn perthynas ag ymgynghoriad cyn ymgeisio arfaethedig, yn nodi bod yn rhaid i unrhyw waith ymgysylltu fod yn ystyrlon a bod yn rhaid i unrhyw sylwadau gan ymgyngoreion statudol gael eu hystyried. Nodwyd hefyd y dylai adroddiadau cyn ymgeisio ddangos sut mae cynnig wedi newid yn ystod y broses cyn ymgeisio a sut y dylid hysbysu ymgyngoreion â chaniatadau tybiedig neu wedi'u datgymhwyso hefyd am gais ar yr un pryd â Gweinidogion Cymru ac ACLlau. Yn olaf, awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i wefannau gael eu cadw nes bod penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud gan y bydd hyn yn caniatáu i bobl gyfeirio at fersiynau blaenorol o ddogfennau os bydd angen a dilyn hynt penderfyniadau.

3.232 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, dywedodd un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y bydd yr ymdrech a'r gost sy'n gysylltiedig â pharatoi cyfres lawn o ddogfennau ymgeisio ar gyfer ymgynghoriad yn golygu cryn amharodrwydd i newid y cais ar y cam hwn. Cyflwynwyd y sylwadau hyn gan ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd.

3.234 Cyfeiriodd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio at y sylwadau hyn mewn perthynas ag ymgynghori ar gais drafft. Fodd bynnag, roedd o blaid y cynnig mewn egwyddor.

3.235 Anghytunodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol â rhannau o'r cynnig, gan nodi ei fod yn credu y dylid bod wedi diffinio'n glir ym mha amgylchiadau y dylid ymgynghori ag ymgyngoreion statudol yn y papur ymgynghori. Fodd bynnag, roedd yn cytuno â'r egwyddor o ymgynghori cyn ymgeisio.

3.236 Roedd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall yn pryderu nad oes gan ddatblygwyr ddigon o wybodaeth amgylcheddol bob amser ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio i alluogi cyrff cadwraeth natur statudol a rhanddeiliaid eraill i fod yn llwyr ymwybodol o'r holl effeithiau amgylcheddol posibl sy'n deillio o brosiect.

3.237 Derbyniwyd dau ymateb nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

C17 Ymateb Llywodraeth Cymru

Datblygiadau trawsffiniol

Rydym wedi ystyried y bydd y datblygiadau arfaethedig yn creu problemau trawsffiniol o bosibl rhwng Cymru a Lloegr a sut y gall hyn effeithio ar gynigion hysbysu ac ymgynghori; fodd bynnag, dim ond ar gyfer datblygiadau arfaethedig, neu rannau o ddatblygiadau, y gallwn ddeddfu, o fewn ffiniau Cymru. O ran sut y bydd hyn yn effeithio ar ofynion hysbysu ac ymgynghori, byddwn yn nodi arfer gorau mewn canllawiau a fydd yn awgrymu bod datblygwyr yn hysbysu pob ACLl perthnasol a chymuned y bydd cynnig yn effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai yn Lloegr.

Ffioedd

Rydym yn cytuno y dylai ACLlau feddu ar y gallu i godi ffioedd am wneud gwaith a orchmynnir gan ddeddfwriaeth ar sail adennill costau. Caiff gwybodaeth fanylach am ffioedd ei hystyried a bydd yn destun proses casglu tystiolaeth bellach o ran yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau y darperir ffi gywir ar gyfer cyfranogi.

Cyngor cyn ymgeisio gorfodol

Er mai datblygwyr fydd yn ymgymryd ag ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol, nid ydym o'r farn y bydd yn briodol i fynnu'n gyfreithiol bod datblygwyr yn trafod eu cynigion gydag ACLlau perthnasol. Rydym yn derbyn bod gan ACLlau wybodaeth ac arbenigedd lleol a chânt gyfle i nodi hyn ar ffurf adroddiadau effaith leol. Byddwn yn annog datblygwyr i drafod ag ACLlau cyn gynted â phosibl mewn canllawiau, a nodir fel arfer gorau.

Adroddiadau cyn ymgeisio

Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio i Weinidogion Cymru sy'n nodi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan nodi pa sylwadau a gariwyd ymlaen a chyfiawnhau pam na chafodd eraill eu cario ymlaen. Bydd hyn yn helpu i ddangos sut mae datblygiad arfaethedig wedi datblygu drwy'r cam ymgynghori cyn ymgeisio a sut mae rhanddeiliaid amrywiol wedi dylanwadu ar hynny.

Gofynion hysbysu cychwynnol

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgyngoreion statudol yn y broses ymgynghori. Fodd bynnag, yn ystod camau cychwynnol y datblygiad lle mae'n ofynnol i ddarpar ymgeiswyr hysbysu Gweinidogion Cymru a'r ACLlau, efallai na fydd y cynllun wedi ei ddatblygu'n ddigonol i benderfynu beth yw'r effeithiau ar ba gyrff.

Ffurf ar ymgynghoriad cyn ymgeisio a'i gynnwys

Rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori ar gais drafft ac AEA (lle y bo'n ofynnol) o leiaf cyn cyflwyno cais.

Er y gall fod yn feichus i ddatblygwyr ymgynghori ar gais drafft cyn ei gyflwyno'n ffurfiol, credwn fod hyn yn agwedd bwysig ar gamau rhagarweiniol y broses, gyda'r nod o gyflymu penderfyniadau, cynyddu sicrwydd yn y broses ac arwain at nifer fwy o ganiatadau yn cael caniatâd.

Er ein bod yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal gwefan drwy gydol y cam cyn ymgeisio cychwynnol, yn nodi cynnydd a'r ymgeisydd drafft ar ôl cwblhau'r broses, hyd at y pwynt cyflwyno ffurfiol, nid ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i wefannau gael eu cynnal am gyfnod hwy na hyn. Mater i Weinidogion Cymru fydd cynnal gwefan cais y tu hwnt i'r cam hwn.

Y camau nesaf

3.238 Rydym yn bwriadu datblygu ein cynnig i gyflwyno gofynion ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol ar gyfer datblygwyr cyn cyflwyno WIC er mwyn helpu i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu hysbysu'n dda, yn dangos diddordeb ac yn cael y cyfle i wneud cyfraniad ystyrlon at ddatblygiad arfaethedig sydd o bwys cenedlaethol i'w hardal leol.

C18	**A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar ymchwiliadau o'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac i wrandawiadau yn unig gael eu cynnal yn eu lle? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cael gwared ar y ffurfioldeb sydd fel arfer yn gysylltiedig ag ymchwiliadau a mynd i'r afael â materion penodol drwy gynnal gwrandawiadau yn unig er mwyn atgyfnerthu'r rhan y mae cymunedau yn ei	

chwarae yn y broses. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r gallu i ganiatáu croesholi mewn gwrandawiadau lle bo hynny'n ddefnyddiol ac yn angenrheidiol.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	2	1	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	3	1	3	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	3	1	0	8	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	2	6	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**9**	**7**	**5**	**25**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**5**
Cyfanswm y Ganran	**76%**	**24%**

Adolygiad ystadegol

3.239 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 76% â'r cynnig i gael gwared ag ymchwiliadau o'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch WICs ac i wrandawiadau yn unig gael eu cynnal yn eu lle.

3.240 Roedd yr holl grwpiau a ymatebodd, ac eithrio'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r rhai yn y categori 'Eraill' yn gyffredinol o blaid y cynnig. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant yn anghytuno â'r cynnig, ac roedd yr ymatebion o'r categori 'Eraill' yn gymwys.

Themâu allweddol

3.241 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 18 fel a ganlyn:

- A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar ymchwiliadau o'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch WICs ac i wrandawiadau yn unig gael eu cynnal yn eu lle;
- Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod ymchwiliadau yn hirfaith ac nad oeddent yn gosteffeithiol.
- Dylid cynnal rhyw fath o broses groesholi.

Trosolwg

3.242 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o blaid cael gwared ag ymchwiliadau o'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch WICs am resymau amrywiol, gan gynnwys darparu cyfranogiad teg a chynhwysol, yn ogystal â'r gred ymhlith rhai ymatebwyr y gall rhai ymchwiliadau fod yn hir ac estynedig, effeithio ar raglenni prosiect a chost.

3.243 Nododd ACLl y gall ymchwiliadau fod yn wrthwynebus, yn hirfaith ac efallai nad dyma'r ffordd orau o asesu materion technegol a chymhleth. Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y gall ymchwiliadau ddefnyddio llawer o adnoddau a bod cael gwared arnynt a rhoi gwrandawiadau llawr agored sy'n seiliedig ar bynciau yn eu lle yn gam synhwyrol.

3.244 At hynny, roedd nifer o ymatebwyr, yn bennaf o'r ACLlau, yn hapus i gefnogi'r cynnig, ar yr amod y darperir ar gyfer proses groesholi. Fodd bynnag, nododd un o'r ACLlau hefyd fod yn rhaid i'r broses fod yn fforwm lle y gwrandewir ar bob pryder /mater ac y caiff pob un ei ystyried.

3.245 Er ei fod o blaid y cynnig, dywedodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio fod angen bod yn ofalus ynghylch cynigion

y gallai partïon fanteisio arnynt am eu bod am rwystro ac oedi'r broses yn hytrach na chynnig cyfraniadau adeiladol.

3.246 Anghytunodd un ACLl â'r cynnig gan nodi bod yn rhaid i ddatblygiadau llai arwyddocaol gynnal ymchwiliad yn ystod y broses gynllunio a chan dybio nad oes hawl i apelio ar gyfer WIC (heblaw am Adolygiad Barnwrol) byddai ond yn deg i WICs gael eu profi mewn ffordd debyg.

3.247 At hynny, anghytunodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant â'r cynnig i gael gwared ar ymchwiliadau yn llwyr, er iddo awgrymu y gellid eu cadw ar sail pynciau i roi'r hyblygrwydd o'u caniatáu drwy eithriad ar gyfer materion dadleuol.

3.248 Nododd ymatebydd arall o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig fod yn rhaid i archwiliadau fod yn gymesur ac y gall ymchwiliadau gynnig y cyfle i groesholi, ac mai dyma'r ffordd orau weithiau o archwilio tystiolaeth. Bydd trafodaethau 'llawr agored' yn hollol annigonol.

3.249 Cafwyd ymatebion gan ddau ymatebydd nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn.

C18	Ymateb Llywodraeth Cymru

Croesholi

Er bod y papur ymgynghori yn cynnig cael gwared ar ymchwiliadau o blaid gwrandawiadau llawr agored sy'n seiliedig ar bynciau, y bwriedir iddynt ddileu'r ffurfioldeb sydd fel arfer yn gysylltiedig ag ymchwiliadau, rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i feddu ar y gallu i groesholi partïon mewn rhai amgylchiadau. Felly, rydym yn bwriadu caniatáu i Arolygwyr groesholi mewn gwrandawiadau, lle yr ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn ddefnyddiol. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i b'un a ddylai hyn ddigwydd drwy gyfrwng gwrandawiad neu ymchwiliad.

Archwiliad modd cymysg

Er ein bod yn cynnig dileu ymchwiliadau o'r broses archwilio, cytunwn y dylid defnyddio rhai dulliau archwilio sy'n seiliedig ar bynciau er mwyn ystyried materion penodol. Felly, rydym yn cynnig gweithdrefn archwilio sy'n debyg i DNS, lle y gellir cynnal archwiliadau drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad llawr agored neu wrandawiad seiliedig ar bynciau, neu gymysgedd o'r rhain. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod archwiliadau yn gymesur i bob cais.

Y camau nesaf

3.250 Rydym yn bwriadu datblygu ein cynigion i hyrwyddo dull gwrandawiadau llawr agored sy'n seiliedig ar bynciau, ynghyd â sylwadau ysgrifenedig fel dulliau archwilio posibl. Bydd arolygwyr yn defnyddio eu disgresiwn o ran pa ddull archwilio, neu gymysgedd o ddulliau, fyddai'r un mwyaf priodol ar sail achosion unigol, ac a fydd â'r gallu hefyd i groesholi mewn gwrandawiadau. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i b'un a ddylai dull croesholi ddigwydd fel rhan o ymchwiliad mewn amgylchiadau eithriadol.

C19	**A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch amrywiadau yn ystod y broses benderfynu ac amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd? Os nad ydych, pam? Os ydych yn cytuno, awgrymwch ffyrdd o roi'r amrywiadau hynny ar y llwybr carlam.**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu ffenestr i amrywiadau gael eu gwneud i gais datblygu arfaethedig yn ystod y broses benderfynu, yn debyg i broses DNS. Mae hefyd yn cynnig amrywiadau yn dilyn rhoi caniatâd i ystyried arbedion effeithlonrwydd o ran dylunio a lleddfu effeithiau yn well, lle y canfyddir y rhain ar ôl rhoi caniatâd ond cyn y gwaith adeiladu.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	3	1	4	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	2	4	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	0	2	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**6**	**9**	**3**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**83%**	**17%**

Adolygiad ystadegol

3.251 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 83% â'r cynnig i wneud amrywiadau yn ystod y cyfnod penderfynu ac ar ôl rhoi caniatâd.

3.252 Cytunodd pob un o'r ymatebwyr o'r categorïau ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd ymatebion gan y rhai yn y categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn gymysg, er bod y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynnig, ac nid oedd unrhyw ymatebion wedi'u cofnodi gan rai o'r Sector Gwirfoddol. Roedd ymatebwyr o'r categori 'Eraill' yn anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.253 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 19 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig ynghylch amrywiadau yn ystod y broses benderfynu ac amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd;
- Mae angen mwy o fanylion ac ystyriaeth ynghylch yr hyn sydd yn 'fân' amrywiad;
- Dylid ystyried rhoi amrywiadau nad ydynt yn ddadleuol ar y llwybr carlam.

Trosolwg

3.254 Roedd ACLlau o blaid y cynnig, er i sylwadau penodol gael eu codi fel rhan o'r ymgynghoriad. Er enghraifft, nododd nifer o ACLlau fod angen mwy o fanylion am yr hyn a fyddai'n gyfystyr â 'mân' amrywiad a phwy fyddai'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn. Yn yr un modd, awgrymodd ACLl arall na ddylid ystyried bod amrywiadau lle y byddai angen newid yr AEA neu lle y byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ychwanegol yn rhai 'mân'. Cwestiynodd yr ymatebydd hefyd a fyddai 'Egwyddor Amlen Rochdale' yn gymwys.

3.255 Hefyd, awgrymodd un ACLl a oedd o blaid y cynnig, os nad yw diwygiad arfaethedig yn codi unrhyw wrthwynebiadau perthnasol gan ACLl neu ymgyngoreion statudol, fod cyfle i'r diwygiadau hyn cael eu gweithredu drwy

gyfrwng llwybr carlam. Codwyd y pwynt hwn hefyd gan ACLl arall a oedd yn teimlo y gellid cael gwared ar ymgyngoriadau hirfaith a diangen yn aml nad oeddent efallai er budd gorau pawb, a chododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio sylwadau tebyg hefyd.

3.256 Roedd ymatebwyr o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd o blaid y cynnig yn gyffredinol, a nododd dau, er eu bod yn cytuno, y dylai'r dull gweithredu a ddefnyddir gan broses DCO ar gyfer amrywiadau yn ystod y broses ymgeisio gael ei fabwysiadu ac y dylid cyflwyno amserlenni statudol ar gyfer amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch agweddau ar ddatblygiadau yr ystyrir eu bod yn rhai mân yn cael eu gwneud yn gynt. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y gall fod yn bosibl i'r dull rhoi caniatâd tybiedig weithio, a fydd yn arwain at weithdrefn amrywio fwy cymesur. Awgrymodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai amrywiadau yn dilyn rhoi caniatâd gael eu gwneud drwy wneud cais i ACLlau yn hytrach na Gweinidogion Cymru, a chynnal ymgynghoriad cyfyngedig â rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau proses gyflym.

3.257 Roedd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio yn teimlo bod cyfundrefn DCO yn methu gan fod ansicrwydd ynghylch newidiadau ar ôl rhoi caniatâd yr ystyrir eu bod yn berthnasol i brosiect, a nododd ei bod yn hanfodol sicrhau bod gweithdrefn gymesur, gyda phroses ac amserlen glir, yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r gyfundrefn er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ddiwygiadau ar ôl rhoi caniatâd eu dwyn ymlaen lle bo angen.

3.258 Pwysleisiodd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a oedd hefyd yn cytuno â'r cynnig, bwysigrwydd sicrhau mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod penderfynu ar gyfer diwygiadau ar ôl rhoi caniatâd.

3.259 Gwnaeth un ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nodi bod amrywiadau yng nghyfundrefn CPO brif ffrwd yn haws na'r rhai yng nghyfundrefn DCO ac y gallai hyn gael ei ystyried yn ateb posibl. Ar gyfer amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd, nododd yr ymatebydd fod yn rhaid cael dull o sicrhau bod y broses sy'n cael ei dilyn yn gymesur i'r materion a godwyd.

3.260 Er nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai Gweinidogion Cymru fod yn gorfod cymeradwyo amrywiadau sy'n effeithio ar faterion ac amodau a nodir yn y caniatâd craidd, ond y dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol gymeradwyo amrywiadau sy'n effeithio ar faterion ac amodau a nodir mewn caniatadau eilaidd.

3.261 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai diwygiadau posibl ystyried mwy na'r rhai sydd â mân ddiwygiadau, yn enwedig lle y gall diwygiad o'r fath leihau effeithiau amgylcheddol ac effeithiau eraill datblygiadau.

3.262 Nid oedd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Fodd bynnag, rhaid rhoi ystyriaeth i'r awdurdod priodol ar gyfer gwaith ar ôl rhoi caniatâd yn yr

amgylchedd morol, yn enwedig ar gyfer datblygiadau yn y parth rhynglanwol er mwyn osgoi unrhyw sefyllfa lle mae'n ofynnol i ddau awdurdod (ar y tir ac ar y môr) wneud yr un gwaith (h.y. penderfynu a yw amrywiad yn un sylweddol ai peidio).

C19	Ymateb Llywodraeth Cymru

Diffiniadau o 'fân ddiwygiadau'

Ni ddiffinnir diwygiadau ansylweddol a sylweddol mewn deddfwriaeth gan fod nifer o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried a bydd yn dibynnu ar bob achos yn unigol. Mae'r rhain yn cynnwys cyd-destun y cynllun cyffredinol, y diwygiad(au) a geisir i'r WIC presennol ac amgylchiadau penodol y safle a'r ardal o amgylch. Rydym yn bwriadu parhau â'r dull gweithredu hwn a Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu a yw'r diwygiad arfaethedig yn un ansylweddol neu sylweddol. Er mai felly y mae, y bwriad yw egluro ymhellach yr hyn sy'n sylweddol a'r hyn sy'n ansylweddol mewn canllawiau.

Amrywiadau llwybr carlam

Rydym yn cydnabod y rhwystredigaeth a achosir wrth benderfynu ar ddiwygiadau yr ystyrir eu bod yn ansylweddol neu'n fân sylweddol eu natur, ac absenoldeb fframiau amser statudol ar gyfer penderfynu sy'n golygu bod ymgeiswyr yn aros am gyfnodau hir am benderfyniad. Ein bwriad yw unioni hyn drwy gyflwyno fframiau amser statudol, ar gyfer diwygiadau ansylweddol a sylweddol, a chynhyrchu dull llwybr carlam ar gyfer y rhai sy'n ansylweddol neu'n fân eu natur ac sy'n bodloni rhai meini prawf. Caiff cynigion ar gyfer proses gyflymach ar gyfer diwygiadau ansylweddol eu cynnwys fel rhan o ymgynghoriad manwl sy'n nodi sut y bydd y broses WIC arfaethedig yn gweithredu yn ymarferol.
Rydym yn cydnabod buddiannau cyfundrefnau presennol amrywiol wrth amrywio neu ddiwygio cynnig ar gyfer datblygiad a byddwn yn ystyried y rhain wrth ddatblygu cynigion manylach mewn perthynas â diwygio neu amrywio WIC.

Awdurdod penderfynu

Gan na fydd prosiectau WIC yn llunio caniatâd sy'n debyg i ACLlau ac awdurdodau rhoi caniatâd arferol eraill, rydym yn credu ei bod yn briodol mai Gweinidogion Cymru fyddai'r awdurdod penderfynu yn yr achosion hyn, o gofio y byddent eisoes yn ystyried rhinweddau ac effeithiau posibl datblygiad arfaethedig. Byddai hyn yn darparu cysondeb i'r ymgeisydd, ac

ni fyddai'n achosi i amser gael ei dreulio gan awdurdod rhoi caniatâd gwahanol yn ailystyried y rhesymu y tu ôl i benderfyniad gwreiddiol.

Yn yr un modd, o ran diwygiadau neu amrywiadau ar ôl rhoi caniatâd, gan mai Gweinidogion Cymru fyddai wedi gorfod delio â'r caniatâd gwreiddiol, credwn ei fod yn rhesymegol iddynt ystyried a phenderfynu ar unrhyw amrywiadau i'r amod neu'r cynllun yn gyffredinol.

Y camau nesaf

3.263 O gofio'r maint posibl a'r effaith y mae datblygiad arfaethedig drwy'r broses WIC yn debygol o'i chael, rydym yn credu ei bod yn briodol i ddull gael ei roi ar waith sy'n caniatáu i ddiwygiadau neu amrywiadau gael eu gwneud i gais yn ystod y broses gwneud penderfyniadau, ac ar ôl i ganiatâd gael ei roi. Ein bwriad yw parhau i ystyried y dull hwn, gyda Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel yr awdurdod penderfynu a chael cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynghylch p'un a ystyrir bod amrywiad arfaethedig yn un sy'n sylweddol ai peidio.

3.264 Y bwriad yw datblygu dull llwybr carlam ar gyfer penderfynu ar fân newidiadau ar ôl rhoi caniatâd sy'n unol â meini prawf cyhoeddedig. Bwriedir i ymgynghoriad pellach ar y broses WIC gyflawn fanylu ar yr agwedd hon.

C20	**A ydych yn cytuno mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r awdurdod gorfodi ar y tir perthnasol ac mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar y môr perthnasol? Os nad ydych, pam?**
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y byddai ACLlau yn gyfrifol am orfodi WICs sydd wedi'u seilio ar y tir a byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am orfodi WICs sydd wedi'u seilio ar y môr.	

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	1	2	2	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	3	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	1	0	8	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	1	0	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**7**	**8**	**3**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**83%**	**17%**

Adolygiad ystadegol

3.265 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn. Fodd bynnag, o blith y rhai a ymatebodd (naill ai 'Ydw/ydyn', 'Ydw, ydyn, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw/ydyn'), cytunodd 83% â'r cynnig i wneud amrywiadau yn ystod y cyfnod penderfynu ac ar ôl rhoi caniatâd.

3.266 Cytunodd pob un o'r ymatebwyr o'r categorïau ACLlau, Asiantaeth Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Arall a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant â'r cynnig heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd ymatebion gan y rhai yn y categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a'r categori 'Eraill' yn gymysg, er bod y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynnig, ac nid oedd unrhyw ymatebion wedi'u cofnodi gan rai o'r Sector Gwirfoddol.

Themâu allweddol

3.267 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 20 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig ynghylch yr awdurdodau perthnasol ar gyfer gorfodi ar y tir ac ar y môr;
- Angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r broses orfodi;
- Angen sicrwydd ar gyfer awdurdodaethau ar y tir ac ar y môr.

Trosolwg

3.268 Nododd un ACLl fod angen gwybodaeth fanylach yn ymwneud â'r modd y byddai'r broses orfodi yn digwydd yn ymarferol, a soniodd un arall ei fod yn aneglur a fyddai gweithdrefnau gorfodi ar wahân ar waith ar gyfer y broses WIC yn yr un ffordd ag NSIPs ac awgrymodd y dylid cael un broses orfodi ar gyfer WICs.

3.269 Cytunodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant â'r cynnig, ond tynnodd sylw at orgyffwrdd rhwng y gyfundrefn Cynllunio Gwlad a Thref a'r gyfundrefn trwyddedau morol yn yr ardal rynglanwol, y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef. Cwestiynodd yr ymatebydd hefyd sut y byddai caniatadau eilaidd na fyddent fel arfer yn cael eu caniatáu gan ACLl yn cael eu gorfodi ac awgrymodd y byddai'r awdurdod rhoi caniatâd arferol mewn sefyllfa well i wneud unrhyw waith gorfodi angenrheidiol. Codwyd hyn hefyd gan ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a nododd hefyd fod angen ymgynghori ymhellach ar y mater hwn i ddarparu mwy o fanylion am y broses orfodi.

3.270 Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth /Corff Sector Cyhoeddus Arall fod yn rhaid cael amlinelliad deddfwriaethol clir o awdurdodaeth pob awdurdod, gan ystyried lleoliad ac achos yr effaith a'r prosiectau hynny yn yr ardal rynglanwol.

3.271 Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys ACLlau a'r rhai o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio hefyd o blaid y cynnig, ond nodwyd, ar gyfer gwaith gorfodi ar y tir ac ar y môr, fod yn rhaid rhoi ystyriaeth i gyllid a'r adnoddau staff yr oedd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith hwn. Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy gyfrwng ffioedd neu lunio cytundebau perfformiad cynllunio.

3.272 O blith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, nid oedd un unigolyn preifat yn cytuno mai Gweinidogion Cymru oedd yr awdurdod perthnasol ar gyfer gorfodi ar y môr, gan nad yw'n hyderus y bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol, hyd yn oed pan gyflwynir tystiolaeth glir o dorri rheolau neu fethiant i gydymffurfio.

3.273 At hynny, nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, pe bai Gweinidogion Cymru yn cytuno ar ddatblygiadau seilwaith, y byddai'n afresymegol disgwyl i ACLlau wneud gwaith gorfodi ar gyfer datblygiadau ar y tir ac mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru ddylai hynny fod.

3.274 Ni wnaeth ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad, er iddo nodi bod angen ymgynghori ymhellach ar orfodi er mwyn ateb nifer o gwestiynau, gan gynnwys rhai yn ymwneud â'r awdurdod gorfodi priodol a ffioedd.

C20	Ymateb Llywodraeth Cymru

Prosesau a gweithdrefnau gorfodi

Gan y bydd y gyfundrefn rhoi caniatâd unedig arfaethedig yn ymgorffori datblygiadau ar y tir ac ar y môr, mae'n ofynnol i ni gael systemau gorfodi ar wahân. Gan ein bod yn cynnig y gall caniatâd WIC a roddwyd hefyd gynnwys trwydded forol dybiedig, tybir bod y trwyddedau hyn o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a bydd y darpariaethau gorfodi a gynhwysir yn y Ddeddf hon felly yn gymwys, sy'n trosglwyddo'r awdurdod hwn i Weinidogion Cymru.

Rhoddwyd ystyriaeth i ddarparu proses orfodi benodol ar gyfer WICs a chytunwn â'r awgrym hwn. Byddwn yn rhagnodi deddfwriaeth sy'n nodi darpariaethau gorfodi penodol ar gyfer WICs, ac yn ystyried eu heffaith ar WICs dewisol. Lle bydd yr ymgynghoriad yn cynnig y bydd awdurdodau gwahanol yn ymgymryd â gwaith gorfodi ar gyfer ardaloedd ar y tir ac ar y môr, deallwn fod angen darparu ffiniau awdurdodaeth clir er mwyn bod yn eglur a sicr. Rhagnodir hyn mewn deddfwriaeth ac os bydd angen, darperir rhagor o wybodaeth mewn canllawiau.

Awdurdod gorfodi perthnasol

Pan roddir caniatâd eilaidd fel rhan o WIC, rydym o'r farn mai'r awdurdod gorfodi arferol ar gyfer y caniatâd eilaidd fyddai yn y sefyllfa orau i ymgymryd ag unrhyw waith gorfodi angenrheidiol. Mae hyn yn gysylltiedig ag ymchwil y byddwn yn ei gwneud i weld a ddylai caniatadau eilaidd o'r fath fod yn rhai tybiedig neu wedi'u datgymhwyso.

Ffioedd

Nid ydym yn bwriadu codi ffioedd penodol am unrhyw waith gorfodi a wneir gan yr awdurdod priodol. Byddai unrhyw iawndal neu gostau sy'n

ymwneud â gorfodi yn adenilladwy drwy'r llysoedd.

Y camau nesaf

3.275 Ein bwriad yw dynodi'r ACLl fel y prif awdurdod gorfodi ar y tir, a Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod perthnasol ar y môr. Yn dilyn y sylwadau a gafwyd, credwn fod angen datblygu darpariaethau gorfodi penodol ar gyfer WIPs. Bwriedir datblygu darpariaethau o'r fath ochr yn ochr ag ACLl ac awdurdodau rhoi caniatâd arferol.

C21	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch caffael tir yn orfodol? Os nad ydych, pam?
Mae pwerau caffael gorfodol yn adnodd pwysig i ddod a'r tir sydd ei angen i gyflenwi seilwaith modern a chysylltiedig ynghyd. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cynnwys yn y broses rhoi caniatâd ar gyfer WIC y gallu i ddatblygwyr wneud cais am bwerau i gaffael tir neu hawliau mewn tir yn orfodol, diddymu neu ymyrryd â hawliau cyhoeddus a meddu ar dir dros dro. Ar gyfer WIPs, bydd y pwerau hyn yn hanfodol lle nad yw'n ymarferol caffael yr holl dir neu hawliau sydd eu hangen ar gyfer cynllun drwy gytundeb, neu lle y byddai'n effeithio ar gyfarpar ymgymerwyr statudol	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ ydyn	Heb ateb	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	3	2	0	5	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	0	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	9	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	0	2	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	0	2	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**11**	**5**	**2**	**28**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**16**	**2**
Cyfanswm y Ganran	**89%**	**11%**

Adolygiad ystadegol

3.276 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig i gynnwys mewn WIC y pŵer i gaffael tir neu hawliau mewn tir yn orfodol, diddymu neu ymyrryd â hawliau cyhoeddus a meddu ar dir dros dro. O blith y rhain, cytunodd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, a dau o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant â hyn yn amodol ar wneud sylwadau.

3.277 Er bod dau ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant yn cytuno'n gyffredinol â'n cynigion, roeddent yn anghytuno â'n dull o ran cael eu clywed yn ysgrifenedig.

Themâu allweddol

3.278 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 21 fel a ganlyn:

- Dylai cynigion caffael gorfodol WIC fod yn gyson ag egwyddorion caffael gorfodol clasurol a chywir;

- Mae pwerau caffael gorfodol yn hollbwysig ar gyfer rhoi caniatâd effeithiol ar gyfer prosiect seilwaith mawr.

Trosolwg

3.279 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno ac yn cefnogi ein cynnig i gynnwys mewn WIC y pŵer i gaffael tir neu hawliau mewn tir yn orfodol. Ystyriodd ACLl y gofyniad i Weinidogion Cymru ond awdurdodi caffael tir yn orfodol os ydynt yn fodlon bod achos cymhellol dros wneud hynny er budd y cyhoedd, ar yr amod bod yr asesiad o fudd y cyhoedd yn gadarn a thryloyw.

3.280 Roedd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, a oedd yn cytuno â'r cynnig, yn credu y dylai'r amddiffyniadau a roddir i dir ymgymerwyr statudol gan adran 127 o Ddeddf Cynllunio 2008 gael eu hailadrodd er mwyn sicrhau bod tir y mae ymgymerwyr statudol yn berchen arno at ddiben cyflawni eu hymgymeriad hwy wedi ei ddiogelu.

3.281 Nododd un ymatebydd o'r ACLl, a oedd yn cytuno â'r cynnig, nad yw'r gyfundrefn rhoi caniatâd DNS yn rhoi'r pŵer i gaffael tir yn orfodol, a bod ei heffeithiolrwydd yn gyfyngedig yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau llinellol mwy o faint. At hynny, dylai'r cynnig gyflymu'r broses gwneud penderfyniadau ac arwain at gwblhau WIPs o fewn amserlen gyflymach. Bydd hyn yn gadarnhaol i ddatblygwyr a buddsoddwyr ym maes seilwaith ac yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lle mae angen y mathau hyn o ddatblygiad.

3.282 Er i ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio gytuno â'r cynnig, nodwyd y dylid datblygu'r broses caffael gorfodol pan fydd y broses gaffael breifat arfaethedig wedi ei llwyr ddihysbyddu.

3.283 Mynegwyd pryder gan ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a oedd am gael sicrwydd y bydd unrhyw gais i gaffael tir gorfodol o dan WIC yn rhoi ystyriaeth lawn i seilwaith presennol sy'n hollbwysig yn genedlaethol. Hefyd, ni ddylai ceisiadau o'r fath gael caniatâd i gyfyngu ar unrhyw ddatblygiadau posibl yn y dyfodol. Ni ddylai datblygiadau seilwaith a ystyrir o dan feini prawf WIC a throthwyon gael eu hystyried yn flaenoriaeth gan Weinidogion Cymru o gymharu â seilwaith hollbwysig sydd eisoes yn bodoli neu ddarpar seilwaith hollbwysig.

3.284 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, y dylai'r trothwy ar gyfer rhoi caniatâd i ddefnyddio'r pŵer arfaethedig, lle y caniateir caffaeliad gorfodol, fod yn uchel iawn. At hynny, dylid cydnabod bod llawer o'r cwmnïau sy'n defnyddio'r pŵer arfaethedig yn debygol o fod yn gwmnïau sy'n gwneud elw a dylent brofi pam mae angen y seilwaith a pham y mae'n rhai ei leoli yn y fan honno (gan gynnwys asesiad o'r opsiynau amgen a pha fesurau lliniaru sydd wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys gwaith hwylustod.

3.285 Roedd ymatebydd o'r categori 'Eraill' yn anghytuno â'r cynnig am nad oedd yn ystyried safbwyntiau eraill.

3.286 Ni chafwyd ymateb o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio i gwestiwn yr ymgynghoriad, er i'r ymatebydd nodi y byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau i fynd i'r afael â'r diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr â gwrthwynebiad llwyddiannus, gan y bydd angen egluro hyn.

C21	Ymateb Llywodraeth Cymru

Dihysbyddu caffaeliad preifat

Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod y pŵer i gaffael yn orfodol dir a hawliau dros dir/i dir yn ddull hanfodol ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith mawr lle mae cyd-drafodaethau â thirfeddianwyr wedi dod i ben neu'n rhai estynedig. Maent wedi ein hysbysu bod y bygythiad o ddefnyddio pwerau caffael gorfodol yn aml yn ddigon i hwyluso cyd-drafodaethau. Yn ein barn ni, mae'r pŵer i gaffael tir yn orfodol yn elfen hanfodol o unrhyw ddarpar gyfundrefn rhoi caniatâd ar gyfer WIPs.

Ymgymerwyr statudol

Bydd amddiffyniadau ar gael drwy'r gyfundrefn WIC i sicrhau bod tir y mae ymgymerydd statudol yn berchen arno at ddiben cyflawni ei ymgymeriad wedi ei ddiogelu rhag caffaeliad gorfodol drwy WIC.

Effeithiau

Ein bwriad yw sicrhau bod effaith unrhyw gaffaeliad posibl o dir ar hawliau presennol dros neu ar dir yn cael eu hystyried a'u diogelu drwy'r gyfundrefn WIC.

Penderfynir ar bob cais am WIC ar ei rinweddau ei hun a chaiff ei ystyried i'r un graddau â datblygiadau arfaethedig eraill neu ddatblygiadau sydd eisoes yn bodoli.

Croesholi

Rydym yn cynnig caniatáu i bartïon wneud cais ffurfiol am broses groesholi mewn gwrandawiadau. Cynigir y dylid gofyn i bob parti sy'n gysylltiedig â chais i gaffael tir yn orfodol a gynhwysir mewn WIC roi ei sylwadau ar y cynnig.

Yn dibynnnu ar natur y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig, bydd y llwybr ar gyfer caniatáu'r hawl i gael eich clywed yn bodoli drwy wrandawiadau sy'n benodol i bynciau.

Tirfeddianwyr yr effeithir arnynt

Ymgynghorid â thirfeddianwyr yr effeithir arnynt ar y cynigion i gaffael tir neu hawliau dros dir yn orfodol ar y cam cyn ymgeisio, y cam ymgeisio, a gofyn iddynt naill ai gyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu fynd i wrandawiad i fynegi eu barn wrth arolygydd.

Y camau nesaf

3.287 Y bwriad yw datblygu'r cynigion a nodir yn y papur ymgynghori a chynnwys yn y gyfundrefn WIC y pŵer i ddatblygwyr gaffael tir yn orfodol neu hawliau mewn tir, diddymu neu ymyrryd â hawliau cyhoeddus a meddu ar dir dros dro.

C22	A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill ar Rannau 1 a 2 o'r ymgynghoriad hwn?
Rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau eraill sy'n gysylltiedig â Rhannau 1 a 2 sy'n berthnasol yn eu barn nhw.	

Ystyriaethau amgylcheddol

3.288 Mynegodd ACLl bryder mai prin oedd y cyfeiriad yn yr ymgynghoriad o'r gofyniad i gyflawni Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd, lle y bo angen, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud hyn yn fwy clir.

3.289 Awgrymwyd gan ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant fod yn rhaid i broses rhoi caniatâd newydd allu gwrthod prosiect ar sail y difrod amgylcheddol y gallai ei wneud, yn unol â'r cyfarwyddebau natur sy'n sail i ddatblygiad cynaliadwy.

3.290 Soniodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac un o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio am y diffyg manylion sy'n ymwneud â'r broses AEA (sgrinio a chwmpasu) a dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw'n briodol defnyddio un neu fwy o'r Rheoliadau AEA presennol sydd mewn grym neu ddrafftio a mabwysiadu Rheoliadau AEA newydd yn benodol ar gyfer WIPs.

Ffioedd

3.291 Nododd ACLl y bydd cyfranogiad gan ACLlau yn y broses WIP, ynghyd â chytuno ar amodau a phrosesau gorfodi a'u cyflawni, yn arwain at oblygiadau o ran costau a bydd angen iddynt gael eu hadennill gan gyfundrefn ffioedd briodol.

3.292 Pwysleisiodd dau ACLl ac ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio bryderon difrifol ynghylch cynigion i ddarparu ffi benodol i ACLlau i dalu costau llunio LIR, oherwydd natur a maint amrywiol darpar brosiectau, y bydd angen llawer mwy o adnoddau a mewnbwn ar rai ohonynt.

3.293 Nododd ACLl arall y dylai ffioedd ar gyfer cyflawni amodau fod yn gymesur â lefel yr adnoddau sy'n ofynnol gan ACLlau i ymgymryd â'r gwaith hwn ac na ddylid pennu ffioedd.

3.294 Roedd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth o blaid yr egwyddor o adennill costau yn llawn, ond nid oedd yn cytuno y dylai ymgyngoreion statudol lunio Cytundebau Perfformiad Cynllunio gan fod awgrym nad hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o adennill costau.

3.295 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai Llywodraeth

Cymru ymchwilio i strwythurau ffioedd mewn awdurdodaethau eraill er mwyn sicrhau nad yw prosiectau yng Nghymru o dan anfantais gystadleuol.

3.296 Gwnaeth ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio nodi y dylai unrhyw strwythur ffioedd fod yn gymesur, yn deg ac yn gynaliadwy. Fodd bynnag, nododd yr ymatebydd y dylid bod yn ofalus wrth fabwysiadu ffioedd yn unol â Llywodraeth yr Alban gan y byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o fwy na 1000%.

Rhagor o wybodaeth ac arweiniad

3.297 Awgrymodd ACLl fod angen canllawiau clir mewn perthynas â maint Cytundeb Perfformiad Cynllunio a rhaid rhoi digon o adnoddau i ACLlau i'w galluogi i gymryd rhan ystyrlon yn y broses heb orfod peryglu agweddau eraill ar ei waith parhaus o ddydd i ddydd.

3.298 Nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ei bod yn hanfodol sicrhau bod canllawiau llawn ar gael ar weithrediad y gyfundrefn WIC er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn.

3.299 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiannau nad oedd cyfeiriad yn yr ymgynghoriad at drefniadau posibl ar gyfer prosiectau trawsffiniol (h.y. Cymru / Lloegr) a sut y gellir ystyried y rhain o fewn proses WIC yn y dyfodol.

3.300 Roedd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol am gael eglurhad o ran pa ganiatadau eilaidd y gellir eu datgymhwyso fel rhan o broses WIC.

Sylwadau cyffredinol

3.301 Nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall, fod llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn dibynnu ar gael seilwaith sy'n ddiogel.

3.302 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant y gall eu pryderon ynghylch dull datganoledig o ganiatáu seilwaith arwain at anghydbwysedd o ran darparu seilwaith ac felly, bod yn rhaid iddo fod yn gymesur, yn addas at y diben ac yn gymaradwy â'r broses bresennol mewn rhannau eraill o'r DU er mwyn sicrhau nad yw prosiectau o dan anfantais.

3.303 Cwestiynodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant lle mae adran 42 o Ddeddf Cymru 2017 ond yn gymwys i gysylltiadau grid a gynhwysir gyda chais gorsaf gynhyrchu, neu a yw'n gymwys i geisiadau grid ar wahân sydd â'r un diben.

3.304 Cwestiynodd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio a fydd prosiectau a gyflwynir o dan Ddeddf Trydan 1989 a Deddf Cynllunio 2008 cyn 1 Ebrill 2019 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol ac yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth y DU?

3.305 Nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio nad yw'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriadau at ailbweru ffermydd gwynt presennol (ar y tir ac ar y môr) a bod angen eglurhad pellach ar hyn.

Deddfwriaeth / Polisi

3.306 Nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y dylai'r gyfundrefn Caniatâd Seilwaith yng Nghymru (WIC) ddarparu ar gyfer datganoli ymhellach o bosibl, yn enwedig o ran cyfrifoldeb caniatâu ar gyfer llinellau uwchben o 132KV a folteddau is.

3.307 Nododd yr ymatebydd hefyd fod yn rhaid cael cysondeb o ran polisïau gan y gall sefyllfaoedd godi lle y bydd rhai prosiectau yn ddarostyngedig i WIC a gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru megis y FfDC a'r PCC, tra bydd prosiectau tebyg eraill at ddibenion terfynol gwahanol yn ddarostyngedig i bolisi Llywodraeth y DU a all fod yn dra gwahanol i bolisi Cymru. Gall yr anghysondeb hwn achosi camddealltwriaeth.

3.308 Adleisiodd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y sylwadau hyn ac nid oedd yn credu y dylai awdurdod Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau caniatáu ar linellau uwchben fod yn gyfyngedig i linellau hyd at a chan gynnwys 132 KV yn unig.

Cofrestr genedlaethol ar gyfer WICs

3.309 Awgrymodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y dylai Llywodraeth Cymru gynnal cofrestr genedlaethol ar-lein o'r holl gynigion WIC er mwyn helpu pob plaid i ymgysylltu â chynnig WIC cyn gynted â phosibl. Awgrymwyd hyn hefyd gan ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio.

Rhwymedigaethau cynllunio

3.310 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nad oedd unrhyw gyfeiriad yn yr ymgynghoriad at sut yr ymdrinnir yn weithdrefnol â chytundebau adran 107 ar gamau gwahanol o'r broses.

Lleihau cymhlethdod

3.311 Awgrymwyd gan ACLl fod Llywodraeth Cymru wedi gorgymhlethu'r gweithdrefnau arfaethedig yn ôl pob golwg drwy gael WIPs gorfodol a dewisol, a chael sefyllfa lle roedd rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ac eraill wedi'u dirprwyo i Arolygwyr a chael rhai WICs fel offerynnau statudol ac eraill fel caniatadau safonol. Mae hyn yn ymddangos yn rhy gymhleth ac yn tanseilio'r nod o gael proses glir a thryloyw a siop un stop a fydd yn rhoi'r sicrwydd a'r hyder sydd eu hangen ar ddatblygwyr i fuddsoddi yng Nghymru.

Egwyddor 'Amlen Rochdale'

3.312 Nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio ei bod yn hanfodol sicrhau bod y gyfundrefn WIP yn caniatáu ar gyfer dull dylunio / Amlen Rochdale ac nad yw'n ceisio cymell ymgeiswyr i wneud ceisiadau manwl iawn ar y dechrau ar gyfer prosiectau mawr o'r fath, sy'n afrealistig ac a all atal buddsoddiad.

3.313 Adleisiodd ymatebydd arall o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio y sylwadau hyn hefyd drwy awgrymu y dylid ystyried cynnwys egwyddor Amlen Rochdale.

Rôl Arolygwyr

3.314 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynghylch rôl Arolygwyr gan nad oedd y papur ymgynghori yn nodi'n glir a oedd cyfeiriadau at Weinidogion Cymru (h.y. wrth wneud asesiad cychwynnol o'r prif faterion) yn golygu Arolygwyr ai peidio.

Rôl ACLlau

3.315 Mynegwyd pryder gan ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall fod rôl ACLlau yn cael ei bychanu yn y cynigion. Nodwyd, fel yr awdurdod sy'n derbyn a'r awdurdod gorfodi, ei bod yn bwysig sicrhau bod rolau ACLlau yn bwysig fel bod eu gwybodaeth leol a'u dilysrwydd yng ngolwg y bobl leol yn cael eu hystyried yn llawn, yn enwedig mewn perthynas â chaniatadau y byddai'r ACLl fel arall yn penderfynu arnynt. Mae hyn yn ymestyn i'r adnoddau a chostau cyfranogi gan ACLlau, a'r dull o ad-dalu costau LIRs.

Ymgyngoreion Statudol

3.316 Gofynnodd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall am ystyried cynnal adolygiad o ymgyngoreion statudol, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau iechyd cyhoeddus, y mae'n rhaid eu hystyried fel rhan o Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015.

3.317 Yn yr un modd, nododd ymatebydd arall o'r categori hwn fod angen ystyried goblygiadau o ran ymgyngoreion statudol yn llawn ac felly bod anghysondeb yng ngeiriad unrhyw ddeddfwriaeth, polisi neu ganllawiau newydd neu newidiadau iddynt wrth gyfeirio at ymgyngoreion statudol neu ymgyngoreion arbenigol.

3.318 Gofynnodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol am gael ymgynghorai statudol mewn perthynas ag unrhyw bwerau a gynhwysir yn y broses WIC a all effeithio ar gamlas neu ddyfrffordd. Yn yr un modd, pwysleisiodd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau Buddiant fod angen sicrhau annibyniaeth ac arbenigedd cyrff caniatáu a bod ymgyngoreion statudol yn cael eu diogelu fel rhan o broses WIC.

Cyfyngiadau amser ar gyfer caniatadau

3.319 Roedd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant yn teimlo na ddylid rhoi 'pwysau amser' (h.y. cyflwyno amserlenni strwythuredig o ran darparu er mwyn gwella sicrwydd) ar rai penderfyniadau, yn enwedig lle nad yw effaith amgylcheddol y technolegau newydd wedi ei phrofi ac na chytunir yn hawdd ar dybiaethau modelu. Ni ddylid peryglu ansawdd y broses gwneud penderfyniadau o ganlyniad i bwysau amser.

3.320 Yn yr un modd, codwyd y mater ynghylch terfynau amser gan ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall hefyd a nododd y gallai amserlen benderfynu sefydlog arwain at wrthod ceisiadau os nad oes digon o amser i fynd i'r afael ag effeithiau sylweddol yn ddigonol neu os na wneir penderfyniadau o gwbl os daw cyfnod amser i ben.

C22	Ymateb Llywodraeth Cymru

Ystyriaethau amgylcheddol

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyriaethau amgylcheddol wrth ddatblygu cyfundrefn rhoi caniatâd newydd i Gymru, yn enwedig o gofio maint, graddfa ac effeithiau posibl datblygiadau a fyddai'n cael eu nodi o dan y gyfundrefn hon. Caiff ystyriaethau amgylcheddol, yn cynnwys y gydberthynas ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac AEA ei datblygu yn fanylach mewn ymgynghoriad yn y dyfodol mewn perthynas â'r gyfundrefn rhoi caniatâd arfaethedig.

Ffioedd

Deallwn y cyfyngiadau ariannol a'r cyfyngiadau o ran adnoddau y mae ACLlau a rhanddeiliaid eraill yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd angen i unrhyw gyfundrefn rhoi caniatâd gynnig proses adennill costau wirioneddol ar gyfer pob parti allweddol lle mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â rhai swyddogaethau sy'n cael effaith ar gyllid ac adnoddau a byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid pan fydd lefelau ffioedd manylach wedi cael eu datblygu. At hynny, bydd Cytundebau Perfformiad Cynllunio yn ddewisol ac nid yn orfodol fel rhan o'r gyfundrefn rhoi caniatâd arfaethedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ffordd deg sy'n seiliedig ar dystiolaeth o godi tâl ar gyfer LIRs, ond gan gynnal rhywfaint o sicrwydd ar gyfer talwr y ffi.

Rhagor o wybodaeth ac arweiniad

Gan y bydd y broses yn gyfundrefn rhoi caniatâd hollol newydd a phwrpasol i Gymru, byddwn hefyd yn ceisio rhoi arweiniad ochr yn ochr â deddfwriaeth er mwyn helpu pob parti i gymryd rhan yn y broses.

Sylwadau cyffredinol

Mae'r darpariaethau trosiannol perthnasol sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ar y tir ym Mharagraff 8 o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017. Mae Adran 42 o Ddeddf Cymru yn datganoli llinellau trydan uwchben o 132KV sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig. Nid oes unrhyw ofyniad i'r cais am linell drydan uwchben gael ei gysylltu â chais penodol neu fod yn rhan ohono.

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â datblygiad newydd neu newidiadau i ddatblygiad presennol. Lle mae'r gwaith o ailbweru gosodiad presennol yn gyfystyr â datblygiad, yr ymgeisydd fydd yn dangos a yw hyn yn gyfystyr â datblygiad newydd neu'n newid sy'n ofynnol i gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Deddfwriaeth / Polisi

Ystyriaeth ar gyfer Llywodraeth y DU yw'r mater o ddatganoli pwerau pellach i Gymru ar gyfer pwerau ychwanegol yn ymwneud â llinellau trydan uwchben ac ar hyn o bryd, dim ond cymhwysedd hyd at 132KV ar gyfer llinellau trydan uwchben a ddarperir gan Ddeddf Cymru 2017.

Cofrestr genedlaethol ar gyfer WICs

Yn yr un modd â Chynlluniau Gwella Gorsafoedd Cenedlaethol, ein bwriad yw rhoi cyhoeddusrwydd i bob cynnig WIC (gan gynnwys pob dogfen, cynllun, asesiad ac ati) ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i sicrhau proses dryloyw.

Rhwymedigaethau cynllunio

Ymdrinnir â'r modd y mae rhwymedigaethau cynllunio yn rhyngweithio â phroses WIC fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol sy'n nodi manylion proses WIC.

Lleihau cymhlethdod

Er mwyn bod o fudd i bob defnyddiwr a sicrhau y gellir rhoi caniatâd yn gynt i geisiadau a rhoi mwy o sicrwydd o ran canlyniadau, mae angen dull hyblyg o weithredu.

Egwyddor amlen Rochdale

Rydym yn cytuno, oherwydd natur y gyfundrefn rhoi caniatâd arfaethedig, fod angen dull gwahanol o ymdrin â'r gyfundrefn cynllunio. Bwriedir cyflwyno dull egwyddor amlen Rochdale a dulliau hyblyg eraill fel rhan o'r broses.

Rôl Arolygwyr

Rhagwelwn y bydd y gyfundrefn rhoi caniatâd arfaethedig yn gweithredu mewn ffordd debyg i DNS mewn ffordd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru

i benodi person penodedig (h.y. Arolygydd) ar eu rhan. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn cael y pwerau angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau a gynhelir gan yr unigolion penodedig eu hunain a nhw fydd yr awdurdod penderfynu, yn hytrach nag Arolygydd.

Rôl ACLlau

Deallwn arwyddocâd a phwysigrwydd ACLlau yn y broses ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith a byddwn yn sicrhau y defnyddir gwybodaeth ac arbenigedd lleol ar bob cam amrywiol o'r broses.
Fel y trafodwyd mewn adrannau blaenorol, ymgynghorir ag ACLlau ar gynigion sydd o fewn eu hardal awdurdod lleol nhw a bydd yn ofynnol hefyd iddynt gyflwyno eu gwybodaeth a'u harbenigedd ar ffurf LIR. Byddwn hefyd yn annog datblygwyr i ryngweithio ag ACLlau cyn gynted â phosibl drwy gynnal sgyrsiau cyn ymgeisio. Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau ag ACLlau wrth i'r broses ddatblygu er mwyn sicrhau y cânt eu had-dalu'n debyg am eu rôl statudol.

Ymgyngoreion statudol

Bydd ymgyngoreion statudol yn ffurfio rhan annatod o'r broses rhoi caniatâd ar gyfer eu gwybodaeth a'u harbenigedd mewn meysydd penodol, yn yr un modd ag ACLlau. Bydd gwybodaeth fanylach yn ymwneud â rôl ymgyngoreion statudol yn destun ymgynghoriad pellach a manylach.

Cyfyngiadau amser ar gyfer caniatadau

O gofio maint a graddfa bosibl datblygiadau sy'n dod drwy'r broses rhoi caniatâd, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch terfynau amser. Diben cyflwyno terfynau amser yw cynnig sicrwydd ac eglurder i bob parti sy'n gysylltiedig â'r broses rhoi caniatâd ac rydym wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng y prosiectau hynny sydd ar raddfa lai, sy'n llai dadleuol ac nad ydynt wedi bod yn destun fawr ddim gwrthwynebiad os o gwbl a'r rhai a allai, er enghraifft, gael effeithiau amgylcheddol o bosibl a bod yn destun AEA drwy gynnig terfynau amser gwahanol.

C23	A ydych yn cytuno â'n meini prawf ar gyfer dirprwyo achosion sy'n ymwneud â Gorchmynion Prynu Gorfodol anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt? Os nad ydych, pam?
Mae Adran 14D o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi, ar eu rhan, Arolygydd i wneud y penderfyniad ynghylch p'un a ddylai Gorchymyn Prynu Gorfodol Anweinidogol h.y. lle nad yw'r awdurdod caffael yn un o Weinidogion Cymru a lle mae adran 13A o Ddeddf 1981 yn gymwys, gael ei gadarnhau. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dirprwyo penderfyniadau gan Arolygydd mewn rhai amgylchiadau, ond nid pob un. Er mwyn helpu i ystyried p'un a ddylid dirprwyo penderfyniad gan Arolygydd ynghylch Gorchymyn Prynu Gorfodol Anweinidogol, awgrymwyd meini prawf.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydy/ ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	2	0	6	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	0	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	0	1	1	10	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	0	0	7	9
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	2	0	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**11**	**3**	**3**	**29**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydy/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**14**	**3**
Cyfanswm y Ganran	**82%**	**18%**

Adolygiad ystadegol

3.321 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r meini prawf arfaethedig ar gyfer dirprwyo Gorchmynion Prynu Gorfodol Anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt heb roi sylw.

3.322 Gwnaeth dau ymatebydd arall ac un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.323 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 23 fel a ganlyn:

- Gwelwyd bod y newidiadau arfaethedig yn ffordd bragmatig a chyfartal o hwyluso a rheoli'r broses.

- Mae'n ymddangos bod y cynnig yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng effeithlonrwydd a thegwch a bod ganddo'r gallu angenrheidiol i adfer materion os bydd rhywbeth digon newydd neu bwysig yn gwarantu hynny.

Trosolwg

3.324 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno ac yn cefnogi ein meini prawf arfaethedig ar gyfer dirprwyo Gorchmynion Prynu Gorfodol Anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt. Roedd un ymatebydd o ACLl yn ystyried bod yr asesiad o'r Gorchmynion Prynu Gorfodol a wnaed yn ystod y 10 mlynedd blaenorol yn sail gadarn dros y diwygiadau arfaethedig ac roedd y meini prawf yn darparu rhestr wirio briodol yn ôl pob golwg i benderfynu ar orchmynion o'r fath.

3.325 Nododd ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, a oedd yn cytuno â'r cynnig, mai bwriad llawer o'r cynigion yn yr ymgynghoriad oedd rhoi mwy o flaenoriaeth i'r penderfyniad gwleidyddol wrth roi caniatâd ar gyfer gwaith seilwaith mawr, ac roedd yn poeni bod penderfyniad cryf, cyffredinol y penderfynwyd yn briodol arno eisoes ac a oedd yn cael ei rwystro gan Arolygydd yn cael ei ystyried fel proses ar wahân.

3.326 Wrth anghytuno â'r meini prawf arfaethedig, nododd ymatebydd o'r categori Arall, er ei fod yn gallu deall y syniad, nad oedd yn gallu gweld y byddai partïon yn cytuno mewn llawer o achosion p'un a fyddai'r Gorchymyn Prynu Gorfodol posibl yn bodloni'r canllawiau ai peidio.

3.327 Amlinellodd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a oedd yn anghytuno â'r meini prawf arfaethedig nad oeddent yn hoffi proses ddirprwyo o lefel Weinidogol ar faterion pwysig. Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol /Grwpiau

Buddiant, wrth anghytuno, ei fod yn hollbwysig bod y Gweinidog yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, gan fod angen iddo gario'r atebolrwydd gwleidyddol ar gyfer y caniatâd.

3.328 Cafwyd un sylw a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C23	Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r meini prawf arfaethedig ar gyfer dirprwyo Gorchmynion Prynu Gorfodol Anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt.

Mewn perthynas â'r sylw ar roi caniatâd seilwaith mawr a phenderfyniadau o'r fath yn cael eu rhwystro gan Arolygydd fel proses ar wahân, nid yw'r meini prawf arfaethedig a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn gysylltiedig â rhoi caniatâd ar gyfer WIPs o dan y gyfundrefn WIC arfaethedig. Mae'r meini prawf arfaethedig yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer prynu tir yn orfodol drwy Orchymyn Prynu Gorfodol yn unig ac nid WIC. Fel y cyfryw, nid oes gan y sylw berthnasedd uniongyrchol â chwestiwn yr ymgynghoriad a ofynnwyd.

O ran partïon yn cytuno a fyddai Gorchymyn Prynu Gorfodol yn bodloni'r meini prawf, mae'r pŵer o dan adran 14D o Ddeddf 1981 i ddirprwyo'r penderfyniad cadarnhau i Arolygydd ar Orchymyn Prynu Gorfodol anweinidogol yn un i'w arfer gan Weinidogion Cymru. Bydd y meini prawf arfaethedig a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn cael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru er mwyn llywio eu penderfyniad ar b'un a ddylid dirprwyo penderfyniad cadarnhau ai peidio ar Orchymyn Prynu Gorfodol anweinidogol i Arolygydd. Fel y cyfryw, ni chynhelir unrhyw ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru gyda'r partïon i Orchymyn Prynu Gorfodol wrth ystyried y meini prawf dirprwyo ar gyfer p'un a ddylid dirprwyo penderfyniad ai peidio gan Arolygydd ar Orchymyn Prynu Gorfodol anweinidogol.

Mewn perthynas â'r sylwadau yn erbyn dirprwyo o lefel Weinidogol ar faterion pwysig, sefydlwyd yr egwyddor o ddirprwyo penderfyniadau cadarnhau i Arolygwyr ar Orchmynion Prynu Gorfodol anweinidogol gan adran 14D o Ddeddf 1981. Fel y cyfryw, nid oedd hyn yn ddarostyngedig i'r ymgynghoriad. O dan adran 14D o Ddeddf 1981 mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i adfer penderfyniadau cadarnhau oddi wrth Arolygwyr os dymunant wneud hynny.

Y camau nesaf

3.329 Y bwriad yw datblygu a chynnwys yng Nghanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Brynu Gorfodol, y meini prawf arfaethedig ar gyfer dirprwyo

Gorchmynion Prynu Gorfodol Anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt mewn perthynas â chadarnhau:

- CPOs a wneir o dan Ddeddf Priffyrdd 1980;
- CPOs a wneir o dan Ddeddf Tai 1985;
- CPOs a wneir o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
- CPOs a wneir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

C24	**A ydych yn cytuno â'r bwriad i ddiwygio, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, adran 5(4) o Ddeddf Caffael Tir 1981 i ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau i bartïon mewn perthynas â gorchmynion prynu gorfodol yn cael eu gwneud i hwyluso datblygiad a defnyddiau tir eraill, neu at ddibenion priffyrdd?**

5 Ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i brynu tir yn orfodol, y sefyllfa bresennol yng Nghymru yw bod yn rhaid i wrthwynebwyr llwyddiannus i Orchymyn Prynu Gorfodol (CPO) (neu wrthwynebwyr aflwyddiannus os yw'r awdurdod caffael wedi ymddwyn yn afresymol) ymddangos mewn ymchwiliad er mwyn i gostau gael eu dyfarnu iddynt o dan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981").

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau yng Nghymru o dan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981 os caiff ymchwiliad CPO ei ganslo, neu os bydd parti yn peidio ag ymddangos mewn ymchwiliad CPO sy'n ymwneud yn benodol â CPOs a wneir:
i) i hwyluso datblygiad a dibenion cynllunio eraill; neu
ii) at ddibenion priffyrdd.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		**Ydw/ Ydyn**	**Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)**	**Nac ydy/ ydyn**	**Ddim yn Gwybod**	**Cyfanswm**
A	Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio	2	1	0	7	10
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	0	0	4	10
C	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	10	12
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	0	0	7	9

E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	2	2
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	1	0	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		**12**	**3**	**1**	**30**	**46**

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	**Nac ydy/ydyn**
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	**15**	**1**
Cyfanswm y Ganran	**94%**	**6%**

Adolygiad ystadegol

3.330 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau yng Nghymru o dan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981 os caiff ymchwiliad CPO ei ganslo, neu os bydd parti yn peidio ag ymddangos mewn ymchwiliad CPO sy'n ymwneud â CPOs o natur benodol.

3.331 Cytunodd dau o'r categori Ymgynghorwyr Busnes/Cynllunio, ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac ymatebydd o'r categori Arall â hyn yn amodol ar sylwadau.

3.332 Roedd ymatebydd o'r categori Arall yn anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.333 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 24 fel a ganlyn:

- Bydd y newidiadau arfaethedig yn creu proses/system decach a mwy cyfiawn;
- Mae'r cynnig yn ymddangos yn rhesymol a chytbwys, ac yn ymateb i brofiad ymarferol o'r gyfundrefn bresennol;
- Mae'r cynnig yn dangos dealltwriaeth o'r effeithiau ar yr unigolion dan sylw.

Trosolwg

3.334 Roedd pob ymatebydd ond un yn cytuno ac yn cefnogi'r cynnig. Nododd ymatebydd o'r categori Sector Gwirfoddol, wrth gytuno â'r cynnig, y byddai'n briodol diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn gallu dyfarnu costau heb y gofyniad i fynychu ymchwiliad.

3.335 Nododd ymatebydd o'r ACLI, wrth gytuno â'r cynnig, fod cyfuno'r cynigiion yng nghwestiynau 23 a 24 yn ymddangos yn ffordd bragmatig o hwyluso a rheoli'r broses.

3.336 Nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, wrth gytuno â'r cynnig, fod pawb y mae caffaeliad gorfodol yn effeithio arnynt yn wynebu costau o'r diwrnod cyntaf, ac nid dim ond pan dderbynnir hysbysiadau yn ddiweddarach. At hynny, mae'n arbennig o wir pan gaiff cynlluniau eu canslo neu eu gohirio gan adael y tirfeddiannwr i dalu'r hyn a allai fod yn gostau sylweddol.

3.337 Nododd un ymatebydd o'r categori Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r diffiniad o "wrthwynebiad llwyddiannus" yng nghyd-destun CPO. Yn hynny o beth, erys elfen o gostau'r gwrthwynebydd sy'n gysylltiedig â gwneud gwrthwynebiad, nodi eu hachos a bod yn bresennol efallai mewn cyfarfod cyn ymchwiliad, na ellir eu hawlio os nad ydynt yn ymddangos yn yr ymchwiliad cyhoeddus.

Mae hyn oherwydd:
a) byddai'r awdurdod caffael wedi ymdrin â'i wrthwynebiad ac wedi ei dynnu yn ôl wedi hynny, neu
b) byddai diffyg ymddygiad afresymol wedi bod gan yr awdurdod caffael.

3.338 Derbyniwyd un sylw nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C24	Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau i bartïon mewn perthynas â gorchmynion prynu gorfodol (CPOs) os caiff ymchwiliad CPO ei ganslo, neu os bydd parti yn peidio ag ymddangos mewn ymchwiliad CPO.

Mewn perthynas â'r sylw ar gyfuno'r cynigion prynu gorfodol dan gwestiynau 23 a 24. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r pŵer i ddyfarnu costau i bartïon mewn perthynas â CPOs sy'n cael eu gwneud i:
a) hwyluso datblygiad a dibenion cynllunio eraill; neu
b) at ddibenion priffyrdd

gael eu hehangu hefyd i swyddogaethau datganoledig eraill megis:
i) at ddibenion adeiladau rhestredig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990;
ii) at ddibenion tai o dan Ddeddf Tai 1985.

O ran diffinio "gwrthwynebiadau llwyddiannus", ynghyd â gwrthwynebwyr sy'n weddill, y bwriad yw, pan fydd gwrthwynebydd wedi dod i gytundeb â'r awdurdod caffael i eithrio ei dir o orchymyn, a'i fod yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl wedyn, byddai gan y gwrthwynebydd blaenorol yr hawl i adennill ei gostau am wneud ei wrthwynebiad.

Y camau nesaf

3.339 Y bwriad yw datblygu mewn deddfwriaeth sylfaenol y cynnig i ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau yng Nghymru o dan adran 5 o Ddeddf 1981 os caiff ymchwiliad CPO ei ganslo, neu os bydd parti yn peidio ag ymddangos mewn ymchwiliad CPO. Byddwn yn darparu canllawiau ar y diffiniad o "wrthwynebydd llwyddiannus" a fydd yn cynnwys "gwrthwynebwyr sy'n weddill" (fel y'u diffinnir gan adran 13(A)(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981) ond hefyd wrthwynebwyr sy'n tynnu eu gwrthwynebiadau yn ôl ar ôl llwyddo i gael yr awdurdod caffael i ymdrin â'u gwrthwynebiadau mewn ffordd dderbyniol.

3.340 Mewn ymateb i farn a fynegwyd ar yr ymgynghoriad, byddwn yn ymestyn y mathau o CPOs y bydd y pŵer ehangach i ddyfarnu costau yn gymwys iddynt yn unol â'r mathau o CPOs a amlinellir yn y cynnig o dan gwestiwn 23 o'r ymgynghoriad hwn.

3.341 Rydym yn cynnig, pan fydd ymchwiliad CPO yn cael ei ganslo neu pan fydd parti yn peidio ag ymddangos mewn ymchwiliad CPO, bydd y pŵer i ddyfarnu costau yn gymwys i'r mathau canlynol o CPOs sy'n gysylltiedig â materion nas cadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

- hwyluso datblygiadau a dibenion cynllunio eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- at ddibenion priffyrdd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980;
- at ddibenion adeiladau rhestredig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
- at ddibenion tai o dan Ddeddf Tai 1985.

Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr **42**

Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio		ACLl	
008	EnergyMyWay Ltd	002	Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
018	NextEnergy Capital	003	Cyngor Sir Penfro
033	RWE Energy	004	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
036	Innogy Renewables UK Ltd	005	Cyngor Gwynedd
037	Porthladd Aberdaugleddau	010	Cyngor Sir Ynys Môn
038	NDF Energy	012	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
039	Valero	014	Cyngor Caerdydd
041	Coriolis Energy Ltd	022	Cyngor Sir Bro Morgannwg
043	Vatenfall Wind Power Ltd	023	Cyngor Dinas Casnewydd
046	Geldards	029	Cyngor Sir Caerfyrddin
Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall		**Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant**	
009	Heddlu Castell-nedd	019	Cymdeithas Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
011	Iechyd Cyhoeddus Cymru	024	Radioactive Waste Management
013	SP Energy Networks	027	Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol
015	Mochdre gyda Chyngor Cymuned Penystrywaid	028	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
016	Sefydliad Rheoli Morol	030	World Wide Fund for Nature
017	Grid Cenedlaethol	031	Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
021	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	034	Dŵr Cymru
026	Cyfoeth Naturiol Cymru	040	Cymdeithas Prynu Gorfodol
032	Cyngor Tref Maesteg	044	Grŵp Porthladdoedd Cymru
035	Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur	**Arall**	
042	bwrdd Cynghori Ardal Fenter Eryri	001	Unigolyn preifat
045	Countryside Landowners Association	006	Unigolyn preifat
Y Sector Gwirfoddol		007	Unigolyn preifat
020	Coed Cadw		
025	Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd		

At ddibenion diogelu data, mae enwau a chyfeiriadau'r ymatebwyr hynny nad oeddent am gael eu henwi wedi cael eu dileu o'r mynegai uchod ac o'r ymatebion cyhoeddedig i'r ymgynghoriad.